



**Cynulliad Cenedlaethol Cymru
(Cofnod y Trafodion)**

**The National Assembly for Wales
(The Record of Proceedings)**

Dydd Mawrth, 17 Mai 2005

Tuesday, 17 May 2005

Cynnwys
Contents

Ethol Aelodau i Bwyllgorau Pwnc Elect Members to Subject Committees	3
Cwestiynau i'r Prif Weinidog Questions to the First Minister	4
Datganiad Busnes Business Statement.....	34
Cynnig Cyfansawdd: Cymeradwyo Gorchmynion Composite Motion: Approval of Orders.....	39
Cymeradwyo Rheoliadau Hawliau Ailfyndiad a Fforffediad (Swm a Chyfnod Rhagnodedig) (Cymru) 2005, Deddf Cyfunddaliad a Diwygio Cyfraith Lesddaliad 2002 (Cychwyn Rhif 3 ac Arbediad a Darpariaeth Drosiannol) (Cymru) 2005, Rheoliadau Tai Lesddaliad (Hysbysiad o Warchodaeth Yswiriant) (Cymru) 2005, Rheoliadau Landlord a Tenant (Hysbysu o Rent) (Cymru) 2005, Rheoliadau Tribiwnlysoedd Prisio Lesddaliadau (Gweithdrefn) (Diwygio) (Cymru) 2005 a Rheoliadau Taliadau Gwasanaeth (Gofynion Ymgynghori) (Diwygio) (Cymru) 2005 Approval of the Rights of Re-entry and Forfeiture (Prescribed Sum and Period) (Wales) Regulations 2005, the Commonhold and Leasehold Reform Act 2002 (Commencement No 3 and Saving and Transitional Provision)(Wales) Order 2005, the Leasehold Houses (Notice of Insurance Cover)(Wales) Regulations 2005, the Landlord and Tenant (Notice of Rent) (Wales) Regulations 2005, the Leasehold Valuation Tribunals (Procedure) (Amendment) (Wales) Regulations 2005, and the Service Charges (Consultation Requirements) (Amendment) (Wales) Regulations 2005	42
Troseddau Hiliol yng Nghymru Racially Motivated Crime in Wales	65
Adroddiad Pwyllgor Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus ar ei Adolygiad o Weithredu Rheoliadau Gwasanaethau Cyhoeddus a'r Drefn Arolygu yng Nghymru The Local Government and Public Services Committee's Report on its Review of the Operation of the Public Service Regulations and Inspection Regime in Wales.....	96

Yn y golofn chwith, cofnodwyd y trafodion yn yr iaith y llefarwyd hwy ynnddi yn y Siambr.
Yn y golofn dde, cynhwyswyd cyfieithiad o'r areithiau hynny.

In the left-hand column, the proceedings are recorded in the language in which they were spoken in the Chamber. In the right-hand column, a translation of those speeches has been included.

*Cyfarfu'r Cynulliad am 2 p.m. gyda'r Llywydd yn y Gadair.
The Assembly met at 2 p.m. with the Presiding Officer in the Chair.*

Ethol Aelodau i Bwyllgorau Pwnc Elect Members to Subject Committees

Y Llywydd: Yr wyf yn gofyn am ganiatâd y Cynulliad inni bleidleisio ar y cynigion hyn gyda'i gilydd. Gwelaf nad oes gwrthwynebiad i hynny.

The Presiding Officer: I ask the Assembly's permission to vote on these motions together. I see that there are no objections to that.

Y Trefnydd (Jane Hutt): Cynigiau fod

The Business Minister (Jane Hutt): I propose that

y Cynulliad Cenedlaethol, yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 8.4, yn ethol Laura Anne Jones (Ceidwadwyr) i'w Bwyllgor Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio yn lle William Graham (Ceidwadwyr). (NDM2433)

the National Assembly, in accordance with Standing Order No. 8.4, elects Laura Anne Jones (Conservative) to its Social Justice and Regeneration Committee in place of William Graham (Conservative). (NDM2433)

Cynigiau fod

I propose that

y Cynulliad Cenedlaethol, yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 8.4, yn ethol Brynle Williams (Ceidwadwyr) i'w Bwyllgor Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus yn lle Laura Anne Jones (Ceidwadwyr). (NDM2434)

the National Assembly, in accordance with Standing Order No. 8.4, elects Brynle Williams (Conservative) to its Local Government and Public Services Committee in place of Laura Anne Jones (Conservative). (NDM2434)

Cynigiau fod

I propose that

y Cynulliad Cenedlaethol, yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 8.4, yn ethol William Graham (Ceidwadwyr) i'w Bwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes yn lle David Davies (Ceidwadwyr). (NDM2435)

the National Assembly, in accordance with Standing Order 8.4, elects William Graham (Conservative) to its Education and Lifelong Learning Committee in place of David Davies (Conservative). (NDM2435)

*Cynigion (NDM2433, NDM2434, NDM2435): O blaid 36, Ymatal 0, Yn erbyn 0.
Motions (NDM2433, NDM2434, NDM2435): For 36, Abstain 0, Against 0.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Andrews, Leighton
Barrett, Lorraine
Bates, Mick
Butler, Rosemary
Chapman, Christine
Cuthbert, Jeff
Davidson, Jane
Davies, Glyn
Dunwoody-Kneafsey, Tamsin
Essex, Sue
Francis, Lisa
Graham, William
Gregory, Janice

Griffiths, John
 Gwyther, Christine
 Hart, Edwina
 Hutt, Jane
 Idris Jones, Denise
 James, Irene
 Jones, Alun Ffred
 Jones, Ann
 Jones, Helen Mary
 Jones, Ieuan Wyn
 Lewis, Huw
 Lloyd, David
 Lloyd, Val
 Mewies, Sandy
 Morgan, Jonathan
 Morgan, Rhodri
 Neagle, Lynne
 Pugh, Alun
 Sargeant, Carl
 Sinclair, Karen
 Thomas, Catherine
 Thomas, Rhodri Glyn
 Williams, Brynle

*Derbyniwyd y cynigion.
 Motions carried.*

Cwestiynau i'r Prif Weinidog Questions to the First Minister

Datblygiadau yn y GIG yng Nghymru Developments in the Welsh NHS

Q1 Jeff Cuthbert: Will the First Minister make a statement on how developments in the Welsh national health service have affected Caerphilly? OAQ0486(FM)

The First Minister (Rhodri Morgan): Developments in the Welsh NHS mean that, at the end of March, no Caerphilly resident was waiting more than eight months for cardiac surgery or angioplasty, more than six months for an angiogram, or more than four months for cataract surgery.

Jeff Cuthbert: Thank you for that useful and welcome announcement, First Minister. A particularly welcome development is the planned new hospital in the Caerphilly borough. This state-of-the-art hospital, scheduled to open in 2009, will bring enormous benefits to local people. Of particular note is the dedicated mental health unit, which will be a first for Caerphilly. Will you take this opportunity, First Minister, to reaffirm the Welsh Assembly Government's support for that major project?

Q1 Jeff Cuthbert: A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad ar sut y mae datblygiadau yn y gwasanaeth iechyd gwladol yng Nghymru wedi effeithio ar Gaerffili? OAQ0486(FM)

Y Prif Weinidog (Rhodri Morgan): Mae datblygiadau yn y gwasanaeth iechyd gwladol yng Nghymru yn golygu nad oedd, ar ddiwedd mis Mawrth, neb o drigolion Caerffili'n aros am fwy nag wyth mis am lawdriniaeth y galon nac angioplasteg, mwy na chwe mis am angiogram, na mwy na phedwar mis am lawdriniaeth cataractau.

Jeff Cuthbert: Diolch am y cyhoeddiad buddiol hwnnw, sydd i'w groesawu, Brif Weinidog. Datblygiad a groesewir yn arbennig yw'r ysbyty newydd sydd ar y gweill ym mwrdeistref Caerffili. Daw'r ysbyty cwbl fodern hwn, y disgwylir iddo agor yn 2009, â manteision aruthrol i bobl leol. Dylid nodi'n arbennig yr uned benodol ar gyfer iechyd meddwl, y gyntaf o'i bath yng Nghaerffili. A gymerwch y cyfle hwn, Brif Weinidog, i ailgadarnhau cefnogaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru i'r prosiect pwysig hwnnw?

The First Minister: I can certainly do that. I believe that a sum of close to £20 million has been allocated in this financial year to make a start on that major project. It is the largest of the seven or more capital projects to build new hospitals in Wales. The new hospital in Caerphilly is on a different scale to all the others, and its capital value is probably not far off £100 million. We are committed to delivering it within the timescale to which you referred in your supplementary question.

Jocelyn Davies: An article in yesterday's *Western Mail* revealed a funding shortfall in your capital programme. Can you assure us that the new hospital in Caerphilly will definitely go ahead as planned and that the shortfall will not affect that project?

The First Minister: Yesterday's article in the *Western Mail* was of curious provenance. It was based on information given to a particular journalist under the Freedom of Information Act 2000, and who alleged, quite wrongly, that no work or costings had been done on the proposals to bring waiting lists down to the targets set for 2007 and 2009. Having failed on that front, the story was changed completely and then became a story about a shortage of money from the documentation on the capital programme. There is no such shortage of money. Obviously, there are discussions about the revenue implications for each trust; they are putting forward an outline business case for these major hospital-building programmes. When you treble the size of your capital expenditure programme—from £100 million a year this year to £300 million in two years' time—each of those trusts must think about the revenue implications. It is no more than that, and I can reaffirm what I said earlier to Jeff: we anticipate that expenditure not far short of £20 million will be spent in this financial year on that particular project.

Irene James: Would you agree that the new surgery development in Crumlin to permanently house general practitioners who currently operate out of a portable unit is excellent news? Would you agree that, with a team of clinicians, also housed in the new

Y Prif Weinidog: Gallaf wneud hynny'n sicr. Credaf fod swm yn agos at £20 miliwn wedi ei ddyrannu yn y flwyddyn ariannol hon i ddechrau ar y prosiect pwysig hwnnw. Dyma'r mwyaf o'r saith neu ragor o brosiectau cyfalaf i godi ysbytai newydd yng Nghymru. Mae'r ysbyty newydd yng Nghaerffili ar raddfa wahanol i'r lleill i gyd, ac mae'n debyg bod ei werth cyfalaf yn agos at £100 miliwn. Yr ydym wedi ymrwymo i'w gyflawni o fewn yr amser y cyfeiriasoch ato yn eich cwestiwn atodol.

Jocelyn Davies: Datgelodd erthygl yn *Western Mail* ddoe ddiffyg ariannol yn eich rhaglen gyfalaf. A allwch roi sicrwydd inni yr aiff yr ysbyty newydd yng Nghaerffili yn ei flaen yn bendant yn unol â'r cynllun ac na fydd y diffyg yn effeithio ar y prosiect hwnnw?

Y Prif Weinidog: Tarddiad rhyfedd oedd i erthygl ddoe yn y *Western Mail*. Fe'i seiliwyd ar wybodaeth a roddwyd i ohebydd penodol dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, gohebydd a honnodd, yn gwbl gyfeiliornus, nad oedd dim gwaith na phrisio wedi bod ar y cynigion i ddod â rhestrau aros i lawr at y targedau a osodwyd ar gyfer 2007 a 2009. Wedi methu ar y pwynt hwnnw, newidiwyd y stori'n llwyr ac yna aeth yn stori am brinder arian yn ôl y gwaith papur ar y rhaglen gyfalaf. Nid oes y fath brinder arian. Yn amlwg, mae trafodaethau ynghylch y goblygiadau refeniw i bob ymddiriedolaeth; maent hwy'n cyflwyno achos busnes amlinellol dros y rhaglenni codi ysbytai pwysig hyn. Pan dreblwch faint eich rhaglen gwariant cyfalaf—o £100 miliwn y flwyddyn eleni i £300 miliwn ymhen dwy flynedd—rhaid i bob un o'r ymddiriedolaethau hynny feddwl am y goblygiadau refeniw. Nid yw'n ddim mwy na hynny, a gallaf ailgadarnhau'r hyn a ddywedais yn gynharach wrth Jeff: disgwyliwn y gwerir yn agos at £20 miliwn yn y flwyddyn ariannol hon ar y prosiect arbennig hwnnw.

Irene James: A gytunech fod datblygiad y feddygfa newydd yng Nghrymlyn i roi cartref parhaol i feddygon teulu sydd ar hyn o bryd yn gweithio mewn uned symudol yn newyddion ardderchog? A gytunech, gan fod tîm o glinigwyr, a gartrefir hefyd yn y

surgery, employed to expand primary care services and manage long-term conditions funded by the local health board from its Wanless allocation, increased investment in the Welsh NHS from a Labour Welsh Assembly Government is making a difference—*[Interruption.]*

The Presiding Officer: Order. I want to hear the supplementary question.

Irene James: I have almost finished, but do you want me to start again? *[Interruption.]*

The Presiding Officer: Order. Irene James is asking her question.

Irene James: Would you agree that the new surgery development in Crumlin to permanently house GPs who currently operate out of a portable unit is excellent news? Would you agree that, with a team of clinicians, also housed in the new surgery, employed to expand primary care services and manage long-term conditions funded by the local health board from its Wanless allocation, increased investment in the Welsh NHS from a Labour Welsh Assembly Government is making a difference in the constituency?

The First Minister: Some good news about the health service is so good that it deserves to be heard twice. I agree with Irene on those points. We sometimes get so obsessed with hospital-building programmes that we forget about the importance of modernising the health-centre side for the delivery of GP services. The instituting of new health centres, especially in areas benefiting from the Wanless reallocation, is of huge importance. I commend the way in which Irene raised this issue.

feddygfa newydd, wedi'i gyflogi i ehangu gwasanaethau gofal sylfaenol a rheoli cyflyrau hirdymor gydag arian gan y bwrdd iechyd lleol allan o'i ddyraniad Wanless, fod cynnydd yn y buddsoddiad yn GIG Cymru gan Lywodraeth Lafur y Cynulliad Cenedlaethol yn gwneud gwahaniaeth—*[Torri ar draws.]*

Y Llywydd: Trefn. Mae arnaf eisiau clywed y cwestiwn atodol.

Irene James: Yr wyf bron â gorffen, ond a oes arnoch eisiau imi ddechrau eto? *[Torri ar draws.]*

Y Llywydd: Trefn. Mae Irene James yn gofyn ei chwestiwn.

Irene James: A gytunech fod datblygiad y feddygfa newydd yng Nghrymlyn i roi cartref parhaol i feddygon teulu sydd ar hyn o bryd yn gweithio mewn uned symudol yn newyddion ardderchog? A gytunech, gan fod tîm o glinigwyr, a gartrefir hefyd yn y feddygfa newydd, wedi'i gyflogi i ehangu gwasanaethau gofal sylfaenol a rheoli cyflyrau hirdymor gydag arian gan y bwrdd iechyd lleol allan o'i ddyraniad Wanless, fod cynnydd yn y buddsoddiad yn GIG Cymru gan Lywodraeth Lafur y Cynulliad Cenedlaethol yn gwneud gwahaniaeth yn yr etholaeth?

Y Prif Weinidog: Mae ambell newydd da am y gwasanaeth iechyd mor dda fel ei fod yn haeddu cael ei glywed ddwy waith. Cytunaf ag Irene ar y pwyntiau hynny. Weithiau byddwn yn mwydro ein pennau gymaint gyda rhaglenni codi ysbytai nes anghofio am bwysigrwydd moderneiddio'r canolfannau iechyd i gyflwyno gwasanaethau meddygon teulu. Mae sefydlu canolfannau iechyd newydd, yn enwedig mewn ardaloedd sydd yn elwa ar ailddyraniad Wanless, o bwysigrwydd aruthrol. Cymeradwyaf y modd y cododd Irene y mater hwn.

Gwastraff Niwclear Nuclear Waste

Q2 Helen Mary Jones: Will the First Minister make a statement on nuclear waste? OAQ0488(FM)

C2 Helen Mary Jones: A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad ar wastraff niwclear? OAQ0488(FM)

The First Minister: The Committee on Radioactive Waste Management is currently considering the options for managing the UK's radioactive waste and is due to deliver its recommendations to the UK Government and the three devolved administrations next year.

Helen Mary Jones: I am sure that you will agree that it is unlikely that this review will come up with a long-term, safe and sustainable way of dealing with nuclear waste. Therefore, do you agree that nuclear energy is not an acceptable long-term answer to tackling climate change, and will you take this opportunity to commit the Assembly Government to opposing any new nuclear power developments in Wales?

The First Minister: It is a bit premature to be doing that. My attitude towards nuclear power is well known. Members may have seen the interesting debate on last night's *Newsnight* on the costs of nuclear power, which showed that they would be at least double those of onshore wind power generation. The debate also indicated that the nuclear industry has not yet solved the waste problem. Even if you were to commit yourself to starting a big nuclear programme, as the industry would like to see, it would not avoid the need for a major continued effort to promote energy efficiency and to provide other renewables to fill the gap created by the closure of nuclear power stations from 2010 onwards.

John Griffiths: With regard to issues concerning nuclear waste and the nuclear industry in general, would you agree that there has been lack of transparency and openness and, indeed, that there has been misinformation? Along with the inherent uncertainties and dangers of nuclear power, this has resulted in understandable public concern and distrust about waste and other issues. Would you also agree that we have not heard any convincing answers to these issues, especially on nuclear waste?

The First Minister: Nuclear waste is the major handicap of the nuclear industry. Its great advantage is that it does not generate

Y Prif Weinidog: Mae'r Pwyllgor Rheoli Gwastraff Ymbelydrol wrthi'n ystyried yr opsiynau ar gyfer rheoli gwastraff ymbelydrol y DU a dylai gyflwyno'i argymhellion i Lywodraeth y DU a'r tair gweinyddiaeth ddatganoledig y flwyddyn nesaf.

Helen Mary Jones: Yr wyf yn siŵr y cytunwch ei bod yn annhebygol y daw'r adolygiad hwn o hyd i ddull hirdymor, diogel a chynaliadwy o ddelio â gwastraff niwclear. Felly, a gytunwch nad yw ynni niwclear yn ateb derbynol yn y tymor hir i fynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd, ac a gymerwch y cyfle hwn i rwymo Llywodraeth y Cynulliad i wrthwynebu unrhyw ddatblygiadau ynni niwclear o'r newydd yng Nghymru?

Y Prif Weinidog: Mae ychydig yn gynamserol i wneud hynny. Mae fy agwedd tuag at ynni niwclear yn hysbys iawn. Efallai i Aelodau weld y ddadl ddiddorol ar *Newsnight* neithiwr ynghylch costau ynni niwclear, a ddangosodd y byddent o leiaf gymaint ddwywaith â chostau cynhyrchu ynni gwynt ar y tir. Dangosodd y ddadl hefyd nad yw'r diwydiant niwclear eto wedi datrys problem gwastraff. Hyd yn oed pe baech yn ymrwmo i ddechrau rhaglen niwclear fawr, fel yr hoffai'r diwydiant ei weld, ni fyddai'n osgoi'r angen am ymdrech fawr barhaus i hyrwyddo effeithlonrwydd ynni ac i ddarparu dulliau eraill o gynhyrchu ynni adnewyddadwy i lenwi'r bwlch a grëir wrth gau atomfeydd o 2010 ymlaen.

John Griffiths: Gyda golwg ar faterion yn ymwneud â gwastraff niwclear a'r diwydiant niwclear yn gyffredinol, a gytunech bod diffyg tryloywder a gonestrwydd wedi bod ac, yn wir, fod gwybodaeth gamarweiniol wedi bod? Ynghyd â'r agweddau ansicr a'r peryglon sydd ynghlwm wrth ynni niwclear, mae hyn wedi achosi pryder a diffyg ymddiriedaeth dealladwy ymysg y cyhoedd ynghylch gwastraff a materion eraill. A gytunech hefyd nad ydym wedi clywed dim atebion i'r materion hyn sydd yn dal dŵr, yn enwedig o ran gwastraff niwclear?

Y Prif Weinidog: Gwastraff niwclear yw anfantais fawr y diwydiant niwclear. Ei fantais fawr yw nad ydyw'n cynhyrchu

carbon dioxide. As the nuclear power stations of the 1970s generation reach the end of their licence period, we must be aware that we have three alternatives. The first is massive energy savings, the second is a new nuclear programme, provided that problems relating to cost and the underwriting of waste disposal can be solved, and the third is a major additional programme of renewables or of new coal-fired power stations involving clean coal technology. The latter does not exist at the moment, so we cannot point to it and say, 'There, it is working'. From our experience with windfarms, we all know that these options will generate a certain amount of local opposition. We also know what would happen as regards nuclear waste disposal sites. If we do not want the lights to go out at some point between 2010 and 2020, we will have to face up to some of the unpalatable options that could affect all of our local areas.

2.10 p.m.

Mick Bates: I am sure that we all agree with what you just said about energy conservation and renewable energy, and that that will help to reduce the impact of nuclear waste. However, how can you stand there and say that, when there is little hope that your Government will meet its target of obtaining 10 per cent of electricity from renewable sources by 2010? We already have increased carbon emissions in Wales. How can you stand there and not tell the people of Wales that it is the Department of Trade and Industry that will be telling you what to do, because we do not have the powers in the Assembly to govern ourselves and say 'no' to nuclear power?

The First Minister: Do not get over-excited about stating the obvious, Mick. We all know that consent for power stations over 50 MW is not devolved. It is not a matter of controversy. We have asked for it to be devolved, but we have not yet succeeded in that. However, the issues would remain the same whoever is in charge. Do you want the lights to go out, or do you want more windfarms? Do you want a massive energy efficiency programme, or do you want nuclear power? For nuclear power, you then have to deal with the implications of that in

carbon deuocsid. Wrth i atomfeydd cenhedlaeth y 1970au ddod i ben eu cyfnod trwyddedu, rhaid inni fod yn ymwybodol bod tri dewis gennym. Y cyntaf yw arbed ynni ar raddfa enfawr, yr ail yw rhaglen niwclear newydd, ar yr amod y gellir datrys problemau ynghylch y gost a gwarantu gwaredu gwastraff, a'r trydydd yw rhaglen fawr ychwanegol o ynni adnewyddadwy neu o bwerdai glo newydd a fydd yn defnyddio technoleg glo glân. Nid yw'r olaf yn bodoli ar hyn o bryd, felly ni allwn bwyntio ato a dweud, 'Dyna ni, mae'n gweithio'. Yn ôl ein profiad gyda ffermydd gwynt, gwyddom i gyd y bydd y dewisiadau hyn yn creu rhyw gymaint o wrthwynebiad lleol. Gwyddom hefyd beth fyddai'n digwydd o ran safleoedd gwaredu gwastraff niwclear. Os nad ydym am i'r goleuadau ddiffodd ryw bryd rhwng 2010 a 2020, bydd yn rhaid inni wynebu rhai o'r dewisiadau annymunol a allai effeithio ar ein hardaloedd lleol ni i gyd.

Mick Bates: Yr wyf yn siŵr ein bod i gyd yn cytuno â'r hyn a ddywedsoch yn awr ynghylch arbed ynni ac ynni adnewyddadwy, ac y bydd hynny'n helpu i leihau effaith gwastraff niwclear. Fodd bynnag, sut y gallwch ddweud hynny, pan nad oes fawr o obaith y gwnaiff eich Llywodraeth gyrraedd ei tharged o gael 10 y cant o drydan o ffynonellau adnewyddadwy erbyn 2010? Yr ydym eisoes wedi cynyddu'r carbon sy'n cael ei ryddhau yng Nghymru. Sut y gallwch feiddio peidio â dweud wrth bobl Cymru mai'r Adran Masnach a Diwydiant fydd yn dweud wrthyhych beth i'w wneud, am nad yw'r pwerau gennym yn y Cynulliad i lywodraethu ein hunain a dweud 'na' wrth ynni niwclear?

Y Prif Weinidog: Peidiwch â gorgynhyrfu wrth ddatgan rhywbeth sy'n amlwg, Mick. Gŵyr pawb ohonom nad yw caniatâd ar gyfer atomfeydd dros 50 MW wedi'i ddatganoli. Nid yw'n fater dadleuol. Yr ydym wedi gofyn am gael ei ddatganoli, ond nid ydym wedi llwyddo i gael hynny eto. Fodd bynnag, byddai'r cwestiynau'n aros yr un fath pwy bynnag fyddai wrth y llyw. A ydych am i'r goleuadau ddiffodd, ynteu a ydych am gael rhagor o ffermydd gwynt? A ydych am gael rhaglen effeithlonrwydd ynni anferth, ynteu a ydych am gael ynni niwclear? O ran ynni

finding a waste management solution—that is the nuclear industry’s Achilles’ heel. Do you want clean coal technology? Initially, at least, that would have to be done on a pilot basis. There are certain unpalatable aspects to all those options, and we have to be honest enough not to pretend to the British public that there is an easy solution. It will require a lot of detailed negotiations between the industries involved, ourselves, and the Westminster Government.

niwclear, rhaid delio wedyn â goblygiadau hynny o ran canfod ateb i reoli gwastraff—dyna fan gwan y diwydiant niwclear. A ydych am gael technoleg glo glân? Ar y dechrau, o leiaf, byddai’n rhaid gwneud hynny ar sail peilot. Mae rhai agweddau annymunol i bob un o’r dewisiadau hynny, a rhaid inni fod yn onest a pheidio â chymryd arnom fod ateb hawdd. Bydd angen llawer o drafod manwl rhwng y diwydiannau dan sylw, ni, a Llywodraeth San Steffan.

Y Gwariant ar Ysbytai Newydd Spending on New Hospitals

Q3 Sandy Mewies: Will the First Minister make a statement on projected Welsh Assembly Government spending on new hospitals in Wales? OAQ0485(FM)

C3 Sandy Mewies: A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad ar y gwariant a ragwelir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ar ysbytai newydd yng Nghymru? OAQ0485(FM)

The First Minister: The three-year budget for the present year and the two subsequent years contains a commitment to increase capital expenditure by 300 per cent, from £120 million now to £309 million in 2007-08. Five major publicly funded hospital schemes are progressing through the capital investment process, including Holywell community hospital.

Y Prif Weinidog: Mae’r gyllideb tair blynedd ar gyfer y flwyddyn bresennol a’r ddwy flynedd ddilynol yn cynnwys ymrwymiad i gynyddu gwariant cyfalaf 300 y cant, o £120 miliwn yn awr i £309 miliwn yn 2007-08. Mae pum cynllun mawr i godi ysbytai ag arian cyhoeddus yn mynd drwy’r broses buddsoddi cyfalaf, gan gynnwys ysbyty cymunedol Treffynnon.

Sandy Mewies: Thank you, First Minister. You have already referred to the subject of my supplementary. In view of recent press speculation, to which you have already referred, could you reassure me and my constituents in Delyn that the capital allocation for the development of Holywell community hospital is still assured, and can you give me an idea of the timetable for completion?

Sandy Mewies: Diolch, Brif Weinidog. Yr ydych eisoes wedi cyfeirio at destun fy nghwestiwn atodol. Yn wyneb y dyfalu diweddar yn y wasg, y cyfeiriasoch ato eisoes, a allech roi sicrwydd i mi ac i’r hetholwyr yn Nelyn fod y dyraniad cyfalaf ar gyfer datblygu ysbyty cymunedol Treffynnon wedi’i sicrhau o hyd, ac a allwch roi syniad imi am yr amserlen ar gyfer cwblhau’r gwaith?

The First Minister: We expect to have the full business case in a few months’ time. I cannot go beyond that at present, because we will have to examine that full business case, but I do not think that there is any reason to suppose that the timing for completion of the hospital would be any different from that for most of the others in that list, which is around 2008-09. I do not have specific details on it, but given how long it has been—the consultation on an integrated community hospital commenced in 1985—it would be good if the matter was brought to a successful conclusion without any further delay.

Y Prif Weinidog: Disgwyliwn gael yr achos busnes llawn ymheng ychydig fisoedd. Ni allaf fynd ymhellach na hynny ar hyn o bryd, oherwydd bydd yn rhaid inni archwilio’r achos busnes llawn hwnnw, ond ni chredaf fod rheswm dros dybio y byddai’r amserlen ar gyfer cwblhau’r ysbyty yn wahanol o gwbl i honno ar gyfer y rhan fwyaf o’r lleill yn y rhestr, sef tua 2008-09. Nid oes gennyf fanylion penodol amdano, ond gan ei fod wedi cymryd cyhyd—dechreuwyd ymgynghori ynghylch ysbyty cymunedol integredig yn 1985—byddai’n dda pe gellid cwblhau’r mater yn llwyddiannus heb oedi

pellach.

Jonathan Morgan: In February, the Cabinet studied a paper examining the capital projects and the money that would be available for them over the next few years. In that paper—and you have already referred to this—there is reference to the revenue resources needed. On page 7 of the paper, it is stated that NHS trusts in particular would be required to deliver significant efficiency savings above the current requirement. Can you tell me what sort of squeeze the Assembly Government will impose on our NHS trusts and hospitals, and can we get a commitment from you today that this will not lead to a reduction in front-line care?

Jonathan Morgan: Ym mis Chwefror, astudiodd y Cabinet bapur yn archwilio'r prosiectau cyfalaf a'r arian a fyddai ar gael ar eu cyfer yn ystod y blynyddoedd nesaf. Yn y papur hwnnw—ac yr ydych eisoes wedi cyfeirio at hyn—cyfeirir at yr adnoddau refeniw y byddai eu hangen. Ar dudalen 7 yn y papur, dywedir y byddai gofyn i ymddiriedolaethau GIG yn arbennig wneud arbedion effeithlonrwydd sylweddol ar ben y gofyniad cyfredol. A allwch ddweud wrthyf pa fath o wasgfa a rydd Llywodraeth y Cynulliad ar ein hymddiriedolaethau GIG a'n hysbytai, ac a allwn gael ymrwymiad gennych heddiw na fydd hyn yn arwain at leihad mewn gofal rheng flaen?

The First Minister: Absolutely. I can give you that commitment. The tenor of that discussion was to welcome the trebling of the capital investment programme, to say that we have to give very careful attention to the evolution of the kind of project management skills that you need to deliver a programme that is three times larger than this year's programme by then, and to make sure that there are no blockages, as no-one has been spending money in the NHS at this level for a long time.

Y Prif Weinidog: Yn bendant. Gallaf roi'r ymrwymiad hwnnw ichi. Swm a sylwedd y drafodaeth honno oedd croesawu treblu'r rhaglen buddsoddi cyfalaf, dweud bod yn rhaid inni roi sylw gofalus iawn i esblygiad y math o sgiliau rheoli prosiect sydd eu hangen i gyflawni rhaglen sydd dair gwaith yn fwy na rhaglen eleni erbyn hynny, a gwneud yn siŵr na fydd dim tagfeydd, gan nad oes neb wedi bod yn gwario arian yn y GIG ar y lefel hon ers talwm.

We also said that we should give particular attention to the Wanless type of hospital provision or re-provision, whereby you can achieve in some cases a revenue reduction to go with the new capital investment, where you are rationalising at the same time. The Wanless message, as you will recall, Jonathan, was that we have too many hospitals trying to do the same thing too close to each other, and we need some rationalisation. Sometimes you can achieve a big capital spend and revenue reduction through a Wanless rationalisation; sometimes you cannot. Therefore, we have to work out what revenue is really needed to run this kind of capital programme. Above all, we have to get the project management right so that there is no slippage and it is delivered on time.

Dywedasom hefyd y dylem roi sylw arbennig i'r ddarpariaeth neu ailddarpariaeth yn ôl dull Wanless mewn ysbyty, lle y gallwch mewn rhai achosion sicrhau gostyngiad refeniw i gyd-fynd â'r buddsoddiad cyfalaf newydd, lle'r ydych yn rhesymoli ar yr un pryd. Neges Wanless, fel y cofiwch, Jonathan, oedd bod gennym ormod o ysbytai'n ceisio gwneud yr un peth yn rhy agos at ei gilydd, a bod angen rhesymoli rhywfaint. Weithiau gallwch wario cyfalaf mawr a gostwng refeniw drwy resymoli yn ôl dull Wanless; weithiau nid oes modd gwneud hyn. Felly, mae angen canfod faint o refeniw sydd ei angen mewn gwirionedd i redeg y math hwn o raglen gyfalaf. Yn anad dim, rhaid inni sicrhau bod y prosiect yn cael ei reoli'n iawn fel na fydd dim llithriant ac y caiff ei gyflawni mewn pryd.

Kirsty Williams: Your Cabinet paper says that there is a significant risk to the successful achievement of the capital

Kirsty Williams: Mae eich papur i'r Cabinet yn dweud bod perygl sylweddol na fydd y rhaglen buddsoddi cyfalaf yn cael ei

investment programme, due to revenue resources over the next three years being less than the inescapable commitments identified within health and social care. Would it not have been a more honest answer to Sandy Mewies's question to have said that there will be potentially long delays in the building of the Holywell hospital unless the local health board and trust sign up to significant cost savings? Would it not be more honest for you to tell the people of Wales that you might have the money to build these hospitals, but that you do not have the money to open and run them? [*Interruption.*]

The Presiding Officer: Order. As I have already said, I want to hear supplementary questions.

The First Minister: I lost some of the content of that supplementary question, but—

The Presiding Officer: Order. It is totally inappropriate to have barracking of Members asking supplementary questions.

The First Minister: The important point is that project management skills are crucial to the delivery of a programme. As I said in reply to Sandy, when you treble the size of your capital programme, we must first ask how good we in the public sector would be at delivering a massive increase in our capital programme in terms of procurement, project management and delivery on time. Will the hospital open on time and on budget? That is the most important point. We have asked all the professionals involved to give serious attention to where blockages could arise because no-one has been doing this in the public sector for such a long time. Secondly, can we give particular attention, early on, to those capital investment projects that deliver revenue savings? Those are the projects that rationalise the way we deliver healthcare as well as increasing the quantity of it by having it delivered in a more efficient way. That is at the heart of the Wanless message. There is no going back from that. All capital programmes have some revenue consequences, but some can actually save you revenue. Not all hospitals should try to do everything.

chyflawni'n llwyddiannus, oherwydd bod yr adnoddau refeniw dros y tair blynedd nesaf yn llai na'r ymrwymadau anorfod a nodwyd ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol. Oni fyddai wedi bod yn ateb mwy gonest i gwestiwn Sandy Mewies ddweud y bydd efallai oedi mawr cyn adeiladu ysbyty Treffynnon oni bai fod y bwrdd iechyd a'r ymddiriedolaeth leol yn cydsynio ag arbedion sylweddol yn y costau? Oni fyddai'n fwy gonest i chi ddweud wrth bobl Cymru efallai fod yr arian gennych i adeiladu'r ysbytai hyn, ond nad oes arian gennych i'w hagor a'u rhedeg? [*Torri ar draws.*]

Y Llywydd: Trefn. Fel yr wyf wedi dweud eisoes, yr wyf am glywed cwestiynau atodol.

Y Prif Weinidog: Collais beth o gynnwys y cwestiwn atodol, ond—

Y Llywydd: Trefn. Mae'n gwbl amhriodol torri ar draws pan fydd Aelodau'n gofyn cwestiynau atodol.

Y Prif Weinidog: Y pwynt pwysig yw bod sgiliau rheoli prosiect yn hanfodol i gyflawni rhaglen. Fel y dywedais yn yr ateb i gwestiwn Sandy, pan fyddwch yn treblu maint eich rhaglen gyfalaf, rhaid i chi ofyn yn gyntaf pa mor dda y byddem ni yn y sector cyhoeddus am gyflawni cynnydd enfawr yn ein rhaglen gyfalaf o safbwynt caffael, rheoli prosiect a chwblhau'r gwaith mewn pryd. A fydd yr ysbyty'n agor mewn pryd ac o fewn y gyllideb a bennwyd? Dyna'r pwynt pwysicaf. Yr ydym wedi gofyn i'r holl bobl broffesiynol sy'n ymwneud â hyn roi sylw arbennig i'r blocio a allai ddigwydd oherwydd nad oes neb yn y sector cyhoeddus wedi bod yn gwneud hyn ers cymaint o amser. Yn ail, a allwn roi sylw arbennig, yn ddigon cynnar, i'r prosiectau buddsoddi cyfalaf hynny sy'n arwain at arbedion refeniw? Dyna'r prosiectau sy'n rhesymoli'r ffordd yr ydym yn darparu gofal iechyd yn ogystal â chynyddu faint ohono sydd ar gael drwy ei ddarparu mewn ffordd fwy effeithlon. Dyna sydd wrth wraidd neges Wanless. Ni allwn osgoi hynny. Mae rhywfaint o oblygiadau refeniw i bob rhaglen gyfalaf, ond gall rhai ohonynt arbed refeniw. Ni ddylai pob ysbyty ymdrechu i wneud popeth.

Rhodri Glyn Thomas: Gan eich bod yn cyfaddef bod gennych broblemau o ran canfod yr holl arian ar gyfer eich rhaglen buddsoddi cyfalaf—dyna'r hyn yr ydych wedi'i ddweud yn eich atebion—a bod yn rhaid cael arbedion er mwyn sicrhau'r arian hwnnw, beth yw natur y trafodaethau yr ydych wedi'u cael gyda Banc Buddsoddi Ewrop i sicrhau'r cyfalaf ychwanegol ar gyfer eich rhaglen adeiladu ysbytai?

Y Prif Weinidog: Mae'n rhaid ichi fod yn ofalus wrth wneud honiadau ynglŷn â'r hyn yr wyf wedi'i gyfaddef. Yr hyn yr oeddwn yn ei gyfaddef oedd ein bod yn glynu at egwyddor Wanless na ddylai pob ysbyty ymdrechu i gynnig pob gwasanaeth ym mhob rhan o Gymru. Ambell waith, mae'n well rhesymoli gwasanaethau rhwng gwahanol ysbytai, fel bod rhai yn cadw at un math o driniaeth ac eraill yn cynnig gwasanaethau eraill i'r un boblogaeth. Yr ail bwynt yw nad oes prinder cyfalaf, felly nid oes pwynt mynd i drafodaethau gyda Banc Buddsoddi Ewrop. Nid oes prinder cyfalaf i wneud y naid anferth o'r £100 miliwn sydd yn y rhaglen eleni i'r £300 miliwn a fydd yn y rhaglen mewn dwy flynedd.

Rhodri Glyn Thomas: As you have admitted that you face problems in finding all the money that you need for your capital investment programme—that is what you have said in your replies—and that you must identify savings in order to find that money, what is the nature of your discussions with the European Investment Bank to secure the additional capital needed for your hospital building programme?

The First Minister: You must be careful in making claims about what I have or have not admitted. My admission related to the fact that we were sticking to the Wanless principle that all hospitals should not endeavour to provide all services in all parts of Wales. It is sometimes better to rationalise services between different hospitals, so that some specialise in some treatments while others offer other services to the same population. The second point is that there is no shortage of capital, so there is no point in opening discussions with the European Investment Bank. There is no shortage of capital to take the huge leap from the £100 million in this year's programme to the £300 million that will be in the programme two years hence.

Uwchraddio Gwasanaethau Rheilffyrdd i Deithwyr Upgrading Passenger Rail Services

C4 Owen John Thomas: Pa drafodaethau y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi eu cael gyda golwg ar uwchraddio gwasanaethau rheilffyrdd i deithwyr? OAQ0495(FM)

Y Prif Weinidog: Yr ydym wedi cael nifer o drafodaethau ynglŷn â'n hymrwymiad i ddatblygu a gwella gwasanaethau rheilffyrdd, gan gynnwys trafodaethau gydag Adran Drafndiaeth San Steffan, cwmnïau trê, Network Rail, yr Awdurdod Rheilffyrdd Strategol, consortia awdurdodau lleol, partneriaethau rheilffordd cymunedol a Phwyllgor Teithwyr Rheilffyrdd Cymru.

Owen John Thomas: Between 1998 and 2004, Arriva Trains experienced 62 per cent growth in the number of passengers on the Cardiff-Valley lines. It is estimated that, given funding to supply new rolling stock

Q4 Owen John Thomas: What discussions has the Welsh Assembly Government had regarding upgrading passenger rail services? OAQ0495(FM)

The First Minister: We have had numerous discussions about our commitment to developing and improving rail services, including discussions with the Whitehall Department for Transport, train operating companies, Network Rail, the Strategic Rail Authority, the local authority consortia, community rail partnerships and the Rail Passengers Committee for Wales.

Owen John Thomas: Rhwng 1998 a 2004, cafwyd twf o 62 y cant yn nifer teithwyr Trenau Arriva ar y lein rhwng Caerdydd a'r Cymoedd. O gael y cyllid i ddarparu cerbydau trê newydd ac i ymestyn rhai

and lengthen some platforms, a further 60 per cent growth could be achieved over a further seven-year period. Will you seek to expedite an increase in funding for passenger rail transport so as to bring about a significant reduction in road traffic in and out of Cardiff?

The First Minister: I am not sure whether or not it would deliver significant reductions in the way that you described at the end of your question, although it would be nice if it did. However, I agree with the rest of your question. The massive increase caused, in the main, by putting passing loops on the Cynon valley line, is remarkable.

2.20 p.m.

We will shortly be able to put in a passing loop for a half-hourly service north of Pontypridd on the way to Merthyr Tydfil, with four trains an hour between Bargoed and Caerphilly from the December 2005 timetable. All of that is predicated on two things, one of which is the availability of work at different points on the line, including Cardiff city centre—perhaps overwhelmingly—Treforest industrial estate, Pontygwindy and other areas located alongside the line. That is why 62 per cent more people travel on those lines. Can we keep it going? To the point where you face the big Queen street station blockage, the answer is ‘yes, we can’. That is why we are investing in the Ebbw valley line, and in the Vale of Glamorgan line, which will open in a month. There is the capital and physical work that will be done by bulldozers and so on shortly on the Ebbw valley line. There is a massive programme to try to keep the success going, and the really big blockage is at what point does Queen street station have to be rebuilt, effectively. We will have to announce decisions on that matter in a few years’ time to the Assembly, because that is a big item.

Leighton Andrews: While constituents of mine welcome the new investment by Arriva Trains, particularly in the two morning services to Cardiff from Treherbert, it is still the case that the so-called late night service

plattfformau, amcangyfrifir y gellid cael twf pellach o 60 y cant dros gyfnod o saith mlynedd arall. A wnewch ymdrechu i helpu i gael cynnydd yn y cyllid sydd ar gael ar gyfer teithio ar drenau er mwyn lleihau’n sylweddol y traffig sy’n teithio ar y ffyrdd i mewn ac allan o Gaerdydd?

Y Prif Weinidog: Nid wyf yn siŵr a fyddai hynny'n arwain at ostyngiadau sylweddol yn y modd a ddisgrifwyd gennych ar ddiwedd eich cwestiwn, er y byddai'n braf pe byddai'n hynny'n digwydd. Fodd bynnag, yr wyf yn cytuno â gweddill eich cwestiwn. Mae'r cynnydd anferth sydd wedi deillio, yn bennaf, o gyflwyno dolenni pasio ar lein cwm Cynon, yn rhyfeddol.

Cyn hir byddwn yn gallu cyflwyno dolen basio ar gyfer gwasanaeth bob hanner awr i'r gogledd o Bontypridd ar y ffordd i Ferthyr Tudful, gyda phedwar trê'n yr awr rhwng Bargoed a Chaerffili gan ddechrau gydag amserlen Rhagfyr 2005. Mae hynny oll wedi ei seilio ar ddau beth, un ohonynt yw bod gwaith ar gael mewn lleoedd gwahanol ar hyd y lein, gan gynnwys canol dinas Caerdydd—ac yn fwyaf arbennig, efallai—ystâd ddiwydiannol Treforest, Pontygwindy a mannau eraill wrth ochr y lein. Dyna pam y mae 62 y cant yn rhagor o bobl yn teithio ar y trenau hyn. A allwn gynnal hyn? Hyd at y pwynt lle yr ydych yn wynebu'r rhwystr mawr yng ngorsaf Heol y Frenhines, yr ateb yw ‘gallwn, fe allwn’. Dyna pam yr ydym yn buddsoddi yn lein Glyn Ebwy, ac yn lein Bro Morgannwg, a fydd yn agor ymhen mis. Dyma'r gwaith cyfalaf a ffisegol a fydd yn cael ei wneud gan deirw dur ac yn y blaen cyn hir ar lein Glyn Ebwy. Mae gennym raglen enfawr i geisio parhau â'r llwyddiant, a'r rhwystr gwirioneddol fawr yw pa bryd y bydd rhaid ailadeiladu gorsaf Heol y Frenhines, i bob pwrpas. Bydd rhaid inni wneud cyhoeddiad i'r Cynulliad ar y mater hwnnw ymhen ychydig flynyddoedd, gan fod hwnnw'n fater mawr.

Leighton Andrews: Tra bo etholwyr at ei gilydd yn croesawu'r buddsoddiad newydd gan Drenau Arriva, yn enwedig yn y ddau wasanaeth yn y bore i Gaerdydd o Dreherbert, y sefyllfa o hyd yw bod y

from Cardiff to Treherbert actually leaves Cardiff pretty early, at around 10.30 p.m.. Will you, in the meetings that you and your Ministers have with Arriva Trains, examine the possibility of having a much later service from Cardiff on the Treherbert line so that constituents of mine who wish to spend the evening in Cardiff are able to spend a proper evening and get back rather later?

The First Minister: That depends on your definition of 'a proper evening'. I think that it means closing time, but we will have to investigate that more closely with you, Leighton. However, the important thing is that I will have to ask Andrew Davies to raise that issue with Arriva Trains. When you talk to people at the end of the line in Maesteg, Treherbert, Merthyr, Rhymney and, shortly, Ebbw Vale, they all raise this issue of how early you must leave the centre of Cardiff in order to access the late train. There is nothing nicer than a night at the theatre or the cinema, going for a meal or whatever, but you cannot always catch a late train after that, which, I agree, makes an awful lot of difference.

Lisa Francis: Your Government has already asked Arriva Trains to eliminate the overcrowding on Valleys lines by increasing rolling stock. Last week, at the Economic Development and Transport Committee meeting, we heard from Network Rail that it is not responsible for enhancements to railway lines. That could include, for example, the installation of two passing loops on the Cambrian line between Aberystwyth and Shrewsbury, which would facilitate frequent services and eliminate the dangers of overcrowding. Will you give a commitment to the safety of Cambrian line passengers in mid Wales by encouraging the installation of passing loops, if you are not prepared to increase rolling stock on that line, to eliminate the dangers of overcrowding?

The First Minister: Obviously, safety is a major issue. We do not regulate safety; there is a specific authority with expertise in that area. You make an interesting point about overcrowding equalling an unsafe journey. I

gwasanaeth hwyr yn y nos, fel y'i gelwir, o Gaerdydd i Dreherbert yn dal i adael Caerdydd yn weddol gynnar, am tua 10.30p.m. Yn y cyfarfodydd yr ydych chi a'ch Gweinidogion yn eu cael gyda Threnau Arriva, a edrychwch ar y posibilrwydd o gael gwasanaeth llawer hwyrach o Gaerdydd ar lein Treherbert fel bod y rhai o blith fy etholwyr sydd am dreulio'r noson yng Nghaerdydd yn gallu treulio noson iawn yno a chychwyn adref yn hwyrach?

Y Prif Weinidog: Mae hynny'n dibynnu ar eich diffiniad o 'noson iawn'. Yr wyf yn credu bod hynny'n golygu amser cau'r tafarnau, ond bydd rhaid imi eich holi ymhellach ynglŷn â hynny, Leighton. Fodd bynnag, y peth pwysig yw y bydd rhaid imi ofyn i Andrew Davies godi'r mater hwn gyda Threnau Arriva. Pan fyddwch yn siarad â phobl ar ben y lein ym Maesteg, Treherbert, Merthyr, Rhymni a, chyn hir, Glyn Ebwy, maent i gyd yn gofyn pa mor gynnar y mae'n rhaid i chi adael canol Caerdydd er mwyn dal y trê'n hwyr. Nid oes dim sy'n brafiach na noson yn y theatr neu'r sinema, mynd allan am bryd o fwyd neu beth bynnag y bo, ond ni allwch ddal trê'n hwyr bob amser wedi hynny sydd, rhaid imi gytuno, yn gwneud byd o wahaniaeth.

Lisa Francis: Mae eich Llywodraeth eisoes wedi gofyn i Drenau Arriva ddileu'r gorlenwi ar lein y Cymoedd drwy gynyddu nifer y cerbydau. Yr wythnos diwethaf, yng nghyfarfod y Pwyllgor Datblygu Economaidd a Thrafnidiaeth, clywsom Network Rail yn dweud nad yw'n gyfrifol am welliannau i leiniau rheilffyrdd. Gallai hynny, er enghraifft, gynnwys gosod dwy ddolen basio ar lein y Cambrian rhwng Aberystwyth ac Amwythig, a fyddai'n hyrwyddo gwasanaethau aml ac yn dileu peryglon gorlenwi. A wnewch roi ymrwymiad i ddiogelwch teithwyr ar lein y Cambrian yn y Canolbarth drwy bwysio am gyflwyno dolenni pasio, os nad ydych yn barod i gynyddu nifer y cerbydau ar y lein honno, er mwyn dileu peryglon gorlenwi?

Y Prif Weinidog: Mae diogelwch, yn amlwg, yn fater pwysig iawn. Nid ydym yn gyfrifol am reoleiddio diogelwch, mae gennym awdurdod penodol gydag arbenigwrwydd yn y maes hwnnw. Yr ydych

am not sure that it is quite like that. What normally happens with railway investment is that you reach a certain point where the rolling stock is overcrowded but unsafe, and it is at that point that you start thinking about more rolling stock, longer trains or passing loops and more frequent services if they are restricted by the absence of a passing loop on single-track lines. We mentioned how many passing loops we are installing on the Cynon valley line, the Taff valley north of Pontypridd, the Rhymney valley north of Caerphilly and so on. I am not so familiar with the issues of overfull trains on the Cambrian coastline, but I will ask Andrew Davies to look into that and reply to you on the matter.

Arweinydd yr Wrthblaid (Ieuan Wyn Jones): Yr wyf yn siŵr y gwyddoch am y gwelliannau sylweddol yn y blynyddoedd diwethaf i'r gwasanaethau rhwng gogledd Cymru a Llundain, gyda nifer o drenau newydd gan Virgin Trains. Mae'r rheini wedi bod mor llwyddiannus fel bod y cwmni yn bwriadu cynyddu nifer y trenau, efallai ymhen chwe mis i flwyddyn, a fydd yn golygu cysylltiad bob awr rhwng y Gogledd a Llundain. Pe baech yn cymharu hynny â'r gwasanaeth eilradd a difrifol o wael rhwng y Gogledd a Chaerdydd, byddech yn sylweddoli ar unwaith fod angen gwneud rhywbeth ar fyrder i wella'r gwasanaeth yng Nghymru i sicrhau bod gennym wasanaeth sydd hyn yn oed rhywfaint yn debyg i hwnnw rhwng y Gogledd a Llundain.

A fyddech yn cydnabod, Brif Weinidog, fod angen mwy o bwerau sylweddol ar y Cynulliad i sicrhau, yn y lle cyntaf, ein bod yn gallu gwneud penderfyniadau ynglŷn â rheilffyrdd, yn hytrach na lobïo, fel y gwnawn ar hyn o bryd? A fyddech hefyd yn cydnabod y byddai pwerau ychwanegol yn golygu y caem fwy o arian oddi wrth y Trysorlys fel rhan o symiau canlyniadol Barnett er mwyn inni gael gwneud y gwaith angenrheidiol ar greu gwasanaeth y gall pawb fod yn falch ohono?

Y Prif Weinidog: Mae'n anodd cymharu math o wasanaeth a math o lein. Os ydyw'r lein wedi'i gosod ar gyfer cyflymder o 100

Hoffwn gywiro rhywbeth a ddywedais rai eiliadau yn ôl. Credaf y bydd y cyflwyniad i'r Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes yn digwydd ar 6 Mehefin; dyna pryd y byddwn wedi dychwelyd o'n toriad hanner tymor. O ran pryd y byddwn yn ymdrin ag ef, ni wn pa bryd y byddwn yn cyflwyno dadl ac yn rhoi ymateb y Cabinet iddo. Mater i'r Pwyllgor Busnes yw hynny; nid yw'r manylion gennyf, ond sicrhaf, cyn gynted ag y'i cyflwynir, mai arweinyddion y gwrthbleidiau fydd y rhai cyntaf i gael gwybod.

Nick Bourne: Yn sgîl hynny, tybed a fyddai'n bosibl, yn ysbryd y consensws sy'n

to be in the air today, it would be possible to give those dates to the heads of higher education institutions, student unions and so on—Swansea University's Student Union wrote in today about this issue—so that they are aware of the timetable. It is important, because there is so much uncertainty.

The First Minister: Indeed. Looking at the timeline here, I see that there is a reference to a stakeholder seminar in Cardiff University on 2 June, and I guess that that would cover student unions and the higher education sector. There will be another stakeholder seminar for north Wales on 15 June. The back-up papers and research will be published in July. We will ensure that you are told at the earliest possible time when we will be in a position to respond, having seen the report. I must emphasise that we have not seen it either.

2.50 p.m.

Peter Black: The presentation is at 6 p.m. on 6 June in the Assembly. One consequence of the Assembly Government's manifesto commitment to defer top-up fees until after the 2007 elections is the causing of some uncertainty in the higher education sector itself, and the putting of some pressure on that sector in terms of English higher education institutions bidding for their staff. Will you give an assurance to the university sector that once the Assembly Government has fully resolved the issues around the Rees Commission review, it will not lose out in terms of income and that it will be able to maintain its staff and have the funding to do so?

The First Minister: We have made that commitment clear, and I can only re-emphasise it today. We have made it clear that there is a budgetary commitment to backfill any income lost as a result of the absence of top-up fees in Wales for that first relevant academic year through until April/May 2007, when our next elections will be held. You are correct to say that there is a briefing by Professor Rees and her team for all Assembly Members here on 6 June—there is a huge programme to get the information

bodoli heddiw, i bob golwg, rhoi'r dyddiadau hynny i benaethiaid y sefydliadau addysg uwch, undebau'r myfyrwyr ac yn y blaen—ysgrifennodd Undeb Myfyrwyr Prifysgol Abertawe atom heddiw yn holi ynghylch hyn—fel eu bod yn ymwybodol o'r amserlen? Mae'n bwysig, oherwydd yr holl ansicrwydd sydd ynghylch hyn.

Y Prif Weinidog: Yn sicr. O edrych ar yr amserlen yma, gwelaf fod cyfeiriad at seminar i randdeiliaid ym Mhrifysgol Caerdydd ar 2 Mehefin, ac yr wyf yn siŵr y byddai hynny'n cynnwys undebau'r myfyrwyr a'r sector addysg uwch. Cynhelir seminar arall i randdeiliaid yn y Gogledd ar 15 Mehefin. Bydd y papurau cefndir a'r ymchwil yn cael eu cyhoeddi yng Ngorffennaf. Byddwn yn sicrhau y cewch wybod cyn gynted ag y bo modd pa bryd y byddwn yn gallu ymateb, ar ôl gweld yr adroddiad. Rhaid imi bwysleisio nad ydym ninnau wedi'i weld ychwaith.

Peter Black: Bydd y cyflwyniad am 6pm ar 6 Mehefin yn y Cynulliad. Un o ganlyniadau ymrwymiad maniffesto Llywodraeth y Cynulliad i ohirio ffioedd ychwanegol tan ar ôl etholiadau 2007 yw bod peth ansicrwydd wedi'i greu yn y sector addysg uwch ei hun, a bod rhywfaint o bwysau wedi ei roi ar y sector hwnnw gan sefydliadau addysg uwch yn Lloegr yn bidio am eu staff. A wneuch sicrhau sector y prifysgolion, wedi i Lywodraeth y Cynulliad lwyr ddatrys y materion a godir yn adolygiad Comisiwn Rees, na fydd yn dioddef o ran incwm ac y bydd yn gallu cadw ei staff ac y bydd y cyllid ganddo i wneud hynny?

Y Prif Weinidog: Yr ydym wedi gwneud yr ymrwymiad hwnnw'n glir, ac ni allaf ond ei ailddatgan heddiw. Yr ydym wedi dweud yn glir fod ymrwymiad o ran y cyllid i wneud iawn am unrhyw incwm a gollir o ganlyniad i ddiffyg ffioedd ychwanegol yng Nghymru yn y flwyddyn academaidd berthnasol gyntaf honno hyd at Ebrill / Mai 2007, pan gynhelir ein hetholiadau nesaf. Yr ydych yn llygad eich lle wrth ddweud y bydd yr Athro Rees a'i thîm yn dod yma i friffio holl Aelodau'r Cynulliad ar 6 Mehefin—mae rhaglen enfawr

out. On any potential loss of staff and students to competing institutions, that pattern will become much clearer, not because of the Rees report, but simply because of the availability of much more information about English higher education institutions' prospectuses, which will be published over the next few weeks. The timing of the Rees report has a happy additional benefit, in that it will coincide with the publication of the 2007 prospectuses.

i gael y wybodaeth allan. Ynghylch y posibilrwydd o golli staff a myfyrwyr i sefydliadau sy'n cystadlu â'n sefydliadau ni, daw'r patrwm hwnnw'n llawer cliriach, nid oherwydd adroddiad Rees, ond yn syml am y bydd gennym lawer mwy o wybodaeth am brosbectysau'r sefydliadau addysg uwch yn Lloegr, a gyhoeddir yn ystod yr wythnosau nesaf. Mae gan amseriad adroddiad Rees fantais ffodus arall, sef y bydd yn cyddigwydd â chyhoeddi prosbectysau 2007.

Ariannu Strwythurol Posibl ar gyfer 2007 Potential Structural Funding for 2007

Q9 Janet Davies: What discussions has the First Minister had concerning the potential structural funding for 2007? OAQ0492(FM)

C9 Janet Davies: Pa drafodaethau y mae'r Prif Weinidog wedi eu cael ynghylch yr ariannu strwythurol posibl ar gyfer 2007? OAQ0492(FM)

The First Minister: While I and other Ministers participate in the negotiations at a UK and European level, and we also engage in a substantial programme of discussion with all the stakeholders in Wales, I made the point here last week, and in the Committee on European and External Affairs on Thursday, that the question of the structural funding itself is of a secondary nature compared to the question of whether the funding for it is over and above the Barnett formula. We must keep two issues in our minds at all times: structural funding and ensuring that funding for it is available over and above the Barnett formula.

Y Prif Weinidog: Er fy mod i a Gweinidogion eraill yn cymryd rhan yn y trafodaethau ar lefel y DU ac yn Ewrop, a hefyd yn rhan o raglen helaeth o drafodaeth gyda'r holl randdeiliaid yng Nghymru, gwneuthum y pwynt yma yr wythnos diwethaf, ac yn y Pwyllgor Materion Ewropeaidd ac Allanol ddydd Iau, fod y cwestiwn o gyllid strwythurol ynddo'i hun yn ail i'r cwestiwn a ydyw'r cyllid sydd ar gael ar ei gyfer yn ychwanegol at fformiwla Barnett. Rhaid inni gadw dau beth yn ein meddyliau bob amser: cyllid strwythurol, a sicrhau bod y cyllid sydd ar gael ar ei gyfer yn ychwanegol at fformiwla Barnett.

Janet Davies: As you say, it is an issue of funding. You have said in the past that a compromise will be reached in member states' GDP contribution to the EU budget, which pays for the structural funding, and that this will settle somewhere between 1 and 1.4 per cent. Are you confident that this compromise will be the eventual outcome?

Janet Davies: Fel yr ydych yn dweud, mater o gyllid ydyw. Yr ydych wedi dweud yn y gorffennol y bydd cyfaddawd ynghylch cyfraniad Cynnyrch Mewnwladol Crynswth aelod-wladwriaethau i gyllideb yr UE, sy'n talu am y cyllid strwythurol, ac y bydd hyn yn y diwedd rywle rhwng 1 ac 1.4 y cant. A ydych yn ffyddiog mai'r cyfaddawd hwn fydd y canlyniad yn y pen draw?

The First Minister: You can never be confident—you just take a guess. I do not see how that 1 per cent corset can fit in with the different elements of what France, Germany, Spain, Italy, ourselves and the new accession states, including Poland as the big one, have as bottom-line issues. I think that it will overtop the 1 per cent; I cannot see how it

Y Prif Weinidog: Ni allwch byth fod yn ffyddiog—dim ond dyfalu y gall rhywun ei wneud. Nid wyf yn gweld sut y gall yr 1 y cant hwnnw gyd-fynd â gwahanol elfennau y materion sydd, yn Ffrainc, yr Almaen, Sbaen, yr Eidal, yn y wlad hon ac yng ngwledydd newydd yr Undeb, gan gynnwys Gwlad Pwyl, yr un fawr, yn rhai sylfaenol bwysig.

can be brought down within the 1 per cent. As far as the UK Government is concerned, I do not believe it will mind that so much, provided that the Fontainebleau rebate is retained, because that is its non-negotiable position.

The Leader of the Welsh Liberal Democrat Group (Michael German): Among the main users and promoters of the structural funds at present are the Welsh Development Agency, ELWa, the Wales Tourist Board and other Assembly sponsored public bodies. Can you tell me, given the number of staff who are engaged in the management and administration of structural funds in Wales, how many staff from those three bodies have left the institutions since you announced their abolition and merger into the National Assembly? Are you at all concerned about the rate at which people are leaving these three organisations?

The First Minister: I am not aware of any above normal attrition of key staff from the WDA, ELWa or the WTB. There may be ones and twos, but I do not know whether that is above the normal fluctuation rate. The important point that you raised is whether we would be unable to administer the big programmes that the WDA currently administers through structural funds. We would expect, especially if we get Objective 1 funding, with more emphasis on the human side of structural funding, that the ELWa end would be important in 2007 to 2013. I am not aware of any concerns expressed to us that either the WDA, ELWa, or the WTB now, or the WDA, ELWa and the WTB in the future, would be unable to administer any funds that we get because of staff attrition.

Michael German: Retaining that crucial stock of people who have built up expertise in the administration and management of structural funds is a major issue. It is particularly important at this time that we retain that expertise in the hope that we will get structural funds post 2006 and be able to get off to a quick start, no matter how late the commission gives us the go ahead. I am sure

Yn fy marn i, bydd yn mynd dros 1 y cant; ni allaf weld sut y mae modd ei gael i lawr o fewn yr 1 y cant. Cyn belled ag y mae Llywodraeth y DU yn y cwestiwn, nid wyf yn credu y bydd llawer o ots ganddi am hynny, ar yr amod bod ad-daliad Fontainebleu yn cael ei gadw, oherwydd y mae hynny'n safiad ganddi na ellir ei drafod.

Arweinydd Grŵp Democratiaid Rhyddfrydol Cymru (Michael German): Ymhlith prif ddefnyddwyr a hyrwyddwyr y cyllid strwythurol ar hyn o bryd y mae'r Awdurdod Datblygu, ELWa, y Bwrdd Croeso a chyrrff eraill a noddir gan y Cynulliad. A allwch ddweud wrthyf, o ystyried faint o staff sy'n ymwneud â rheoli a gweinyddu cyllid strwythurol yng Nghymru, faint o staff y tri chorff hyn sydd wedi gadael y sefydliadau hyn ers ichi gyhoeddi'r bwriad i'w dileu a'u llyncu gan y Cynulliad Cenedlaethol? A ydych yn poeni o gwbl ynghylch nifer y bobl sy'n gadael y tri sefydliad hyn?

Y Prif Weinidog: Nid wyf yn ymwybodol o nifer uwch nag arfer o staff allweddol yn gadael yr Awdurdod Datblygu, ELWa na'r Bwrdd Croeso. Efallai fod enghreifftiau o un neu ddau, ond ni wn a yw hynny'n fwy na'r gyfradd arferol o newid ai peidio. Y pwynt pwysig a godwyd gennych yw a fyddem yn methu â gweinyddu'r rhaglenni mawr a weinyddir ar hyn o bryd gan yr Awdurdod Datblygu gyda chyllid strwythurol. Byddem yn disgwyl, yn enwedig pe byddem yn cael cyllid Amcan 1, gyda mwy o bwyslais ar ochr adnoddau dynol y cyllid strwythurol, y byddai cyfraniad ELWa yn bwysig o 2007 hyd at 2013. Ni wn am bryderon sydd wedi eu lleisio wrthym na fyddai'r Awdurdod Datblygu, ELWa neu'r Bwrdd Croeso ar hyn o bryd, nac yn y dyfodol, yn gallu gweinyddu unrhyw gyllid a gawn oherwydd bod staff yn gadael.

Michael German: Mae cadw'r stoc graidd o bobl sydd wedi dod yn arbenigwyr ar weinyddu a rheoli cyllid strwythurol yn fater allweddol. Mae'n arbennig o bwysig ar hyn o bryd ein bod yn cadw'r arbenigedd yn y gobaith y byddwn yn cael cyllid strwythurol ar ôl 2006 ac yn gallu gweithredu'n ddiymdroi, waeth pa mor hwyr y bydd y Comisiwn yn dangos y golau gwyrdd inni. Yr

that you would agree that it is important that we do not see an unnecessary churn of staff, when we have taken so much time to build up that expertise. Can you tell me what measures you and your Government have taken to ensure that staffing is as stable as possible during the period of change faced by those three institutions?

The First Minister: We do not try to respond to problems that have not yet arisen. You are presuming that there will be a problem and that we should, therefore, have an answer to it. We are not aware of a problem of above-average turnover among the WDA, WTB or ELWa staff who administer Objective 1 or other structural funds programmes, nor among staff in general in those three organisations.

Michael German: You say that you are unaware of any changes that have taken place in staffing, but you will know that there have been reports of several senior members of staff leaving. More importantly, there are people waiting and looking for other jobs because they do not want to be merged with the civil service in Wales. Do you share a concern about that? If so, surely you have a process in place to assist in ensuring that people want to be part of a new structure.

The First Minister: You could count on one hand the staff of whom I am aware who have left quite senior positions in the WDA; there is perhaps one from ELWa. The numbers are very small. I do not think that staff turnover has increased; it may even have fallen in those organisations. Therefore, you are anticipating a problem that does not exist.

wyf yn siŵr y byddwch yn cytuno ei bod yn bwysig nad ydym yn gweld trosiant staff diangen, a ninnau wedi treulio cymaint o amser yn creu'r arbenigedd hwnnw. A allwch ddweud wrthyf pa fesurau a gymerwyd gennych chi a'ch Llywodraeth i sicrhau bod y sefyllfa o ran staffio mor sefydlog â phosibl yn ystod y cyfnod o newid a wynebier gan staff y tri sefydliad hyn?

Y Prif Weinidog: Nid ydym yn ceisio ymateb i broblemau sydd heb godi eto. Yr ydych yn tybio y bydd problem ac y dylem, felly, fod ag ateb iddi. Nid ydym yn ymwybodol o broblem gyda throsiant uwch nag arfer ymhlith staff yr Awdurdod Datblygu, y Bwrdd Croeso ac ELWa sy'n gweinyddu Amcan 1 neu raglenni cyllid strwythurol eraill, nac ychwaith ymhlith staff yn gyffredinol yn y tri sefydliad hynny.

Michael German: Yr ydych yn dweud na wyddoch am ddim newidiadau sydd wedi digwydd yng nghyswllt staffio, ond gwyddoch fod adroddiadau bod amryw o uwch aelodau o'r staff wedi gadael. Yn bwysicach na hynny, mae pobl yn aros ac yn chwilio am swyddi eraill am nad ydynt am ddod yn rhan o'r gwasanaeth sifil yng Nghymru. A ydych chi hyspysu'r pryderu ynghylch hynny? Os ydych, mae'n siŵr bod gennych broses ar waith i sicrhau y bydd pobl am fod yn rhan o'r strwythur newydd.

Y Prif Weinidog: Gallech gyfrif ar un llaw faint o staff y gwn i amdanynt sydd wedi gadael swyddi eithaf uchel yn yr Awdurdod Datblygu; mae un efallai o ELWa. Mae'r niferoedd yn fach iawn. Ni chredaf fod y trosiant staff wedi cynyddu; efallai'n wir ei fod wedi lleihau yn y cyrff hynny. Yr ydych, felly, yn rhagweld problem nad yw'n bodoli.

Ballet

Q10 Laura Anne Jones: Will the First Minister make a statement on ballet in Wales? OAQ0476(FM)

The First Minister: We spend over £1.7 million a year on dance in Wales; I am told that that includes ballet. Wales has two ballet companies and ballet will be part of the Arts Council of Wales's new dance strategy, and

C10 Laura Anne Jones: A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad ar *ballet* yng Nghymru? OAQ0476(FM)

Y Prif Weinidog: Yr ydym yn gwario dros £1.7 miliwn y flwyddyn ar ddawns yng Nghymru; cefais wybod bod hynny'n cynnwys *ballet*. Mae gan Gymru ddau gwmni *ballet* a bydd *ballet* yn rhan o strategaeth

will feature in the review of dance currently being undertaken by Rosemary Butler and the Culture, Welsh Language and Sport Committee.

Laura Anne Jones: Ballet receives just a fraction of the funding awarded to contemporary dance groups. Its popularity in Wales cannot be disputed. In answer to a recent written question of mine on this subject, your Minister for Culture, Welsh Language and Sport confirmed that attendance at ballet performances had increased by 67 per cent since 2000. What actions are you taking to ensure that ballet is fully supported, accessible to all throughout Wales, and gets the recognition that it deserves?

The First Minister: In the remit letter to the Arts Council of Wales, Alun Pugh requested that it complete a dance strategy, taking account of the committee's review of dance. The strategy will cover the spectrum of all dance organisations, including revenue clients such as Diversions and Earthfall, as well as community dance groups and regional dance houses.

Rosemary Butler: As you are aware, Newport has a superb ballet company in Independent Ballet Wales. As you said, we are undertaking a review of dance across Wales and it is essential that we nurture the wonderful talent that we have across all dance forms in Wales. Will you accept an invitation to the launch of the culture committee's report, which will take place in the autumn?

The First Minister: Provided that it does not clash with any previous unbreakable commitments, I will make my best efforts to do so. I agree with your assessment of how important Independent Ballet Wales is now that it has moved to its new home at the Riverfront arts centre in Newport.

Owen John Thomas: The culture budget represents a mere 1 per cent of the Assembly's block grant. That results in art

ddawns newydd gan Gyngor Celfyddydau Cymru, ac yn un o elfennau'r adolygiad o ddawns a gynhelir ar hyn o bryd gan Rosemary Butler a'r Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon.

Laura Anne Jones: Dim ond ffracsiwn o'r cyllid a roddir i grwpiau dawns cyfoes y mae *ballet* yn ei gael. Nid oes amheuaeth ynghylch ei boblogrwydd yng Nghymru. Mewn ymateb i gwestiwn ysgrifenedig diweddar gennyf ar y pwnc hwn, cadarnhaodd eich Gweinidog dros Ddiwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon fod y nifer sy'n mynychu perfformiadau *ballet* wedi cynyddu 67 y cant ers 2000. Pa gamau yr ydych yn eu cymryd i sicrhau bod *ballet* yn cael cymorth llawn, ei fod ar gael i bawb drwy Gymru gyfan a'i fod yn derbyn y gydnabyddiaeth y mae'n ei haeddu?

Y Prif Weinidog: Yn y llythyr cylch gwaith at Gyngor Celfyddydau Cymru, gofynnodd Alun Pugh iddynt gwblhau strategaeth ddawns, gan ystyried adolygiad dawns y pwyllgor. Bydd y strategaeth yn ymdrin â sbectrwm yr holl fudiadau dawns, gan gynnwys cleientiaid refeniw fel Diversions ac Earthfall, yn ogystal â grwpiau dawns cymunedol a thai dawns rhanbarthol.

Rosemary Butler: Fel y gwyddoch, mae gan Gasnewydd gwmni *ballet* rhagorol, sef Independent Ballet Wales. Fel y dywedasoch, yr ydym yn cynnal adolygiad o ddawns ledled Cymru ac mae'n hanfodol ein bod yn meithrin y doniau ardderchog sydd gennym yng nghyswllt pob ffurf ar ddawns yng Nghymru. A dderbyniwch wahoddiad i lansio adroddiad y pwyllgor diwylliant, sydd i ddigwydd yn yr hydref?

Y Prif Weinidog: Ar yr amod nad yw'n gwrthdaro gydag unrhyw ymrwymiadau blaenorol nad oes modd eu torri, gwnaf fy ngorau glas i wneud hynny. Cytunaf â'ch asesiad ynghylch pa mor bwysig yw cwmni Independent Ballet Wales ac yntau bellach wedi symud i'w gartref newydd yng nghanolfan gelfyddydau'r Riverfront yng Nghasnewydd.

Owen John Thomas: Nid yw'r gyllideb ar gyfer diwylliant ond 1 y cant o grant bloc y Cynulliad. O ganlyniad, mae'r cymorth i

forms such as ballet receiving poor support from the Welsh Assembly Government. What steps are you taking to improve funding for the culture portfolio?

The First Minister: Funding has increased hugely since the Assembly was set up. It started small and may only be at 1 per cent now, but you must remember that you need to look at the percentage increase rather than the per cent of the total block. The Arts Council of Wales and the directly funded clients have received a major increase in their budgets over the six years of the Assembly's existence.

Eleanor Burnham: It is all very well to say what you have done, but we have received evidence in committee that there is huge need and capacity out there to be funded.

3.00 p.m.

One of the big issues emerging from these groups is that many are run on a shoestring by volunteers. What are you doing to ensure that more funding will be available on a three to five-year cycle, as opposed to the current one-year cycle and bids system? That takes away much of the organisational capacity—all that staff are doing is bidding in between the short timescales. What will you do to reassure us on this issue?

The First Minister: I do not suppose that there is a country in the world where you would not find cultural organisations complaining that there was not enough money available for all applicants, and where applicants were not in competition, finding their money falling off after three or five years and then struggling or having to close.

We must remember that ballet has come from nowhere to become a well-developed art form in Wales; you could also say the same about dance in a wider sense. There are huge fitness implications in terms of dance and ballet, which means that we should be prioritising it, even relative to better understood and accepted art forms, such as

ffurfiau ar gelfyddyd megis *ballet* gan Lywodraeth Cynulliad Cymru yn wael. Pa gamau yr ydych yn eu cymryd i wella'r cyllid ar gyfer y portffolio diwylliant?

Y Prif Weinidog: Mae'r cyllid wedi cynyddu'n aruthrol ers sefydlu'r Cynulliad. Ychydig oedd i ddechrau ac efallai mai dim ond 1 y cant ydyw yn awr, ond rhaid ichi gofio bod angen edrych ar y cynnydd canrannol yn hytrach na'r ganran o'r grant bloc. Mae Cyngor Celfyddydau Cymru a'r cleientiaid sy'n cael eu cyllido'n uniongyrchol wedi cael cynnydd mawr yn eu cyllidebau dros y chwe mlynedd ers sefydlu'r Cynulliad.

Eleanor Burham: Mae'n ddigon hawdd ichi sôn am yr hyn yr ydych wedi'i wneud, ond yr ydym wedi cael tystiolaeth yn y pwyllgor fod angen a chapasiti aruthrol yn y maes hwn y mae angen ei gyllido.

Un o'r problemau mawr ynglŷn â'r grwpiau hyn yw bod llawer yn cael eu rhedeg gyda'r nesaf peth i ddim gan wirfoddolwyr. Beth yr ydych yn ei wneud i sicrhau y bydd rhagor o nawdd ar gael ar sail cylchred tair i bum mlynedd, yn hytrach na'r cylchred blwyddyn presennol a'r system bidiau? Mae hynny'n treulio llawer ar gapasiti sefydliadau—y cyfan y mae'r staff yn ei wneud yw bidio rhwng yr amserlenni byr. Beth a wnewch i dawelu ein meddyliau ynghylch y mater hwn?

Y Prif Weinidog: Ni thychiaf fod gwlad yn y byd lle na fydddech yn dod o hyd i sefydliadau diwylliannol yn cwyno nad oes digon o arian ar gael i bob ymgeisydd, a phe na fyddai'r ymgeiswyr yn cystadlu yn erbyn ei gilydd, yn gweld eu harian yn diflannu ar ôl tair i bum mlynedd ac yna mewn trafferthion neu'n gorfod cau.

Rhaid inni gofio bod *ballet* wedi dod o'r cysgodion i fod yn ffurf gelfyddydol sydd wedi ei datblygu'n dda yng Nghymru; gallech hefyd ddweud yr un peth am ddawns mewn ystyr ehangach. Mae gan ddawns a *ballet* oblygiadau anferthol o safbwynt ffitrwydd, ac mae hyn yn golygu y dylem fod yn rhoi blaenoriaeth iddynt, hyd yn oed o

music and the visual arts. I am all in favour of giving a greater priority to dance and ballet, but that always has implications for other applicants and supplicants for state aid in the cultural field.

gymharu â ffurfiau celfyddydol sy'n cael eu derbyn a'u deall yn well, megis cerddoriaeth a'r celfyddydau gweledol. Yr wyf yn llwyr o blaid rhoi rhagor o flaenoriaeth i ddawns a *ballet*, ond mae gan hynny yn wastad oblygiadau i ymgeiswyr a deisyfwyr eraill am gymorth gwladol yn y maes diwylliannol.

Datganiad Busnes Business Statement

The Business Minister (Jane Hutt): I have no changes to report to this week's business. Business for the next three weeks is as set out in the draft statement, which can be found on the Chamberweb under supporting documents. Further to this morning's deliberations in the Business Committee meeting, it has been determined that the following items of subordinate legislation need not be referred to a subject committee for extended consideration: the Education (Listed Bodies) (Wales) (Amendment) Order 2005, the National Health Service (Optical Charges and Payments) and (General Ophthalmic Services) (Amendment) (Wales) Regulations 2005 and the Special Guardianship (Wales) Regulations 2005.

Y Llywydd: A oes gwrthwynebiad i'r datganiad busnes drafft? Gwelaf fod o leiaf 10 Aelod yn gwrthwynebu. Felly, galwaf ar y Trefnydd i gynnig y datganiad busnes yn ffurfiol.

Y Trefnydd (Jane Hutt): Cynigiaf fod

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn derbyn y datganiad busnes.

Rhodri Glyn Thomas: Yr wyf yn siŵr y byddech yn cytuno, Weinidog, fod y syniad o bobl yn aros ar droli er mwyn cael triniaeth a sylw mewn ysbytai yn gwbl wrthun ac annerbyniol. Yn wyneb y cyhoeddusrwydd a roddwyd i'r arosiadau hyn ar droliâu, a rowch sicrwydd inni y cawn ddadl lawn ar y mater hwn yn fuan?

Yn wyneb y datganiadau a gawsom gan y Prif Weinidog y prynhawn yma ynghylch yr angen i arbed ar wariant iechyd er mwyn sicrhau'r rhaglen fuddsoddi i adeiladu

Y Trefnydd (Jane Hutt): Nid oes gennyf newidiadau i adrodd amdanynt i fusnes yr wythnos hon. Mae'r busnes ar gyfer y tair wythnos nesaf fel y'i gwelir yn y datganiad drafft, sydd i'w weld ar we'r Siambr dan ddogfennau ategol. Yn sgîl y trafodaethau y bore yma yng nghyfarfod y Pwyllgor Busnes, penderfynwyd nad oedd yn rhaid cyfeirio'r eitemau canlynol o is-ddeddfwriaeth at bwyllgor pwnc i roi rhagor o ystyriaeth iddynt: Gorchymyn Addysg (Cyrrff Rhestredig) (Cymru) (Diwygio) 2005, Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd a Thaliadau Optegol) a (Gwasanaethau Offthalmig Cyffredinol) (Diwygio) (Cymru) 2005 a Rheoliadau Gwarchodaeth Arbennig (Cymru) 2005.

The Presiding Officer: Are there any objections to the draft business statement? I see that at least 10 Members object. Therefore, I call the Business Minister to formally propose the business statement.

The Business Minister (Jane Hutt): I propose that

the National Assembly for Wales adopts the business statement.

Rhodri Glyn Thomas: I am sure that you would agree, Minister, that the idea of people waiting on a trolley for treatment and attention in hospitals is completely abhorrent and unacceptable. In light of the publicity given to these trolley waits, will you give us an assurance that a full debate will be held on this issue soon?

In light of the First Minister's statements this afternoon on the need for savings in health expenditure to secure capital investment for hospital building, will you ensure that the

ysbytai, a wnewch sicrhau y cawn ddatganiad ar hynny yn fuan gan y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol?

Bydd Plaid Cymru yn cefnogi sylwadau Plaid Geidwadol Cymru ar gadeiryddion paneli craffu Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili. Byddwn hefyd yn cefnogi'r Democratiaid Rhyddfrydol ar yr angen am ddadl ar ddeintyddiaeth a'r diffyg gwasanaeth o fewn y gwasanaeth iechyd gwladol yng Nghymru ar hyn o bryd.

David Melding: Minister, you will be aware of the Conservative group's concern that the Labour Party on Caerphilly County Borough Council has decided to allocate chairs of scrutiny committees to its own group. This goes against established practice, it drives a train through the reforms towards executive structures in local government, and it risks being emulated by other Labour-dominated councils across Wales. A clear lead must come from the Minister as to how this abuse will be rectified.

Kirsty Williams: We would also like to see the Minister for Health and Social Services explain to Assembly Members and their constituents, who are expecting new hospitals to be built, how local health boards and trusts will have to make significant savings to afford the revenue costs. You may have identified the money to build these hospitals, but you have not identified money to keep them running.

With regard to a debate on dentistry services, the answer given by the Minister for Health and Social Services, and his refusal to come here to debate this issue, reveals that he feels that he is on weak ground and that he cannot come here to defend his performance, and that of the Government, on dental services.

I support the comments that David Melding has just made. The Local Government and Public Services Committee report on new local government structures was endorsed by

Minister for Health and Social Services also makes a statement on that issue soon?

Plaid Cymru will support the Welsh Conservatives' comments on the chairs of Caerphilly County Borough Council scrutiny panels. We will also support the Liberal Democrats on the need for a debate on dentistry and the lack of service at present within the national health service in Wales.

David Melding: Weinidog, byddwch yn ymwybodol o bryder grŵp y Ceidwadwyr fod y Blaid Lafur ar Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili wedi penderfynu rhannu cadeiryddiaethau pwyllgorau craffu i'w grŵp ei hun. Mae hyn yn mynd yn groes i'r arferiad sydd wedi ei sefydlu, mae'n chwalu'n llwyr y diwygiadau tuag at strwythurau gweithredol mewn llywodraeth leol, ac mae perygl y bydd hyn yn cael ei efelychu gan gynghorau eraill sydd dan reolaeth Llafur ledled Cymru. Rhaid i'r Gweinidog roi arweiniad pendant ynghylch sut y bydd y camddefnydd hwn yn cael ei unioni.

Kirsty Williams: Byddem hefyd yn hoffi gweld y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn esbonio wrth Aelodau'r Cynulliad a'u hetholwyr, sydd yn disgwyl i ysbytai newydd gael eu hadeiladu, sut y bydd yn rhaid i ymddiriedolaethau a byrddau iechyd lleol wneud arbedion sylweddol i fforddio'r costau refeniw. Mae'n bosibl eich bod wedi dynodi'r arian i adeiladu'r ysbytai hyn, ond nid ydych wedi dynodi'r arian i'w cynnal.

O ran cael dadl ar wasanaethau deintyddiaeth, mae'r ateb a roddodd y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, a'r ffaith iddo wrthod dod yma i ddadlau am y mater hwn, yn datgelu ei fod yn teimlo ei fod ar dir sigledig ac na all ddod yma i amddiffyn ei berfformiad, a pherfformiad y Llywodraeth, ynghylch gwasanaethau deintyddol.

Cefnogaf y sylwadau y mae David Melding newydd eu gwneud. Cymeradwyodd y Gweinidog a'r Cynulliad cyfan adroddiad y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Gwasanaethau

the Minister and the whole Assembly with regard to the role of opposition Members on scrutiny committees. In light of the actions of Caerphilly council—and I suspect that other councils will follow—which has stated that, unless the Minister forces it to do so, it has no intention of allowing opposition members to chair the scrutiny committees, we need the Finance Minister to come forward and say what she intends to do to ensure that her will and her request is carried out by local government in Wales.

Leighton Andrews: Today is a particularly poignant day in the history of the Rhondda, as it is 40 years ago today that the Cambrian colliery disaster took place, in which 31 people died and 13 were injured. Can I ask you, Minister, that we have a debate on the possibility of creating a people's history museum in Wales, as advocated by a number of my colleagues, particularly Huw Lewis, on this side. That would give us the opportunity to mark moments such as this properly, with a proper history of the contribution made by the people of the coalfield communities to the building of modern Wales.

The Business Minister (Jane Hutt): I was surprised to hear the open declaration of Plaid Cymru forming an alliance with the Welsh Conservatives. It is interesting because, in today's *Western Mail*, one of Plaid Cymru's leaders, Adam Price, says clearly that he would never go into coalition with the Welsh Conservatives. There is a political intention behind opposing our business statement, Rhodri Glyn. What it denotes, we will see, as all of your leaders get together, fall apart, get together and do not know which way they are going.

The serious point that you made, Rhodri Glyn, in relation to effective emergency care services, has been addressed by the Minister for Health and Social Services. He addressed this in the debate on 23 February, in what was an important opportunity to explain to all Members about the effective emergency care services that we are developing in Wales as a result of the Welsh emergency care access collaborative, reporting on the results of an 18-month service improvement.

Cyhoeddus ar strwythurau llywodraeth leol o safbwynt rôl Aelodau'r wrthblaid ar bwyllgorau craffu. Yng ngoleuni gweithredoedd cyngor Caerffili—ac amheuf y bydd cynghorau eraill yn dilyn—sydd wedi dweud, oni bai fod y Gweinidog yn ei orfodi i wneud hynny, nad yw'n bwriadu gadael i aelodau'r wrthblaid gadeirio'r pwyllgorau craffu, mae gofyn i'r Gweinidog Cyllid gamu ymlaen a dweud beth y mae'n bwriadu ei wneud i sicrhau bod llywodraeth leol yng Nghymru yn cyflawni ei hewyllys a'i dymuniad.

Leighton Andrews: Mae heddiw yn ddiwrnod arbennig o ingol yn hanes y Rhondda, oherwydd mai 40 mlynedd yn ôl i heddiw y digwyddodd trychineb pwll glo y Cambrian, pan fu farw 31 o bobl ac 13 yn cael eu hanafu. A gaf ofyn ichi, Weinidog, a gawn ddadl ar y posibilrwydd o greu amgueddfa hanes y bobl yng Nghymru, yn unol â chais nifer o'm cyd-Aelodau, yn enwedig Huw Lewis, ar yr ochr hon. Byddai hynny'n rhoi inni'r cyfle i nodi adegau fel hyn yn briodol, gyda hanes priodol am y cyfraniad a wnaeth pobl cymunedau'r meysydd glo at adeiladu'r Gymru fodern.

Y Trefnydd (Jane Hutt): Yr oedd yn syndod i mi pan glywais y datganiad agored bod Plaid Cymru yn ffurfio cynghrair gyda Cheidwadwyr Cymru. Mae'n ddiddorol, oherwydd yn y *Western Mail* heddiw, dywed un o arweinwyr Plaid Cymru, Adam Price, yn bendant na fyddai byth yn ffurfio clymblaid gyda Cheidwadwyr Cymru. Mae bwriad gwleidyddol y tu ôl i wrthwynebu ein datganiad busnes, Rhodri Glyn. Beth y mae'n ei olygu, cawn weld, wrth i'ch holl arweinwyr ddod at ei gilydd, chwalu, dod at ei gilydd, heb wybod i ba gyfeiriad y maent yn mynd.

Mae'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol wedi rhoi sylw i'r pwynt difrifol a wnaethoch, Rhodri Glyn, ynglŷn â gwasanaethau gofal argyfwng effeithiol. Rhoddodd sylw i hyn yn y ddadl ar 23 Chwefror, pan gafwyd cyfle pwysig i esbonio wrth yr holl Aelodau am y gwasanaethau gofal argyfwng effeithiol yr ydym yn eu datblygu yng Nghymru o ganlyniad i raglen gydweithredol Cymru ar fynediad i ofal brys, yn adrodd ar

ganlyniadau gwelliant yn y gwasanaeth dros 18 mis.

The capital programme was dealt with extensively during questions to the First Minister, and I also take on board Kirsty's comments on this issue. The Government has already made available to the Assembly details of the NHS budget, including details of the capital programme. Why can you not celebrate the fact that we trebled the capital programme for the NHS in Wales? You are the ones who always go on about the private finance initiative; we are trebling the public capital programme to build hospitals in Wales. We heard the commitment to the hospital that is being built in Caerphilly, along with hospitals being built in Holywell, Ebbw Vale, Merthyr Tydfil and across Wales. We have already made details of this known; it is a key priority, and the people of Wales will want to hear about this public capital investment.

You went on, Rhodri Glyn, to talk about dentistry, and Kirsty also came in on this point. [*Interruption.*] There you go, the alliance is now in place.

The Presiding Officer: Order. I have had to have words previously with the Reverend Rhodri Glyn Thomas. It is not appropriate for you to seek to make further supplementary interventions when the Minister is replying in order. I counsel the Minister not to listen to anything that is said by people who are sitting down.

Jane Hutt: From the Reverend, or irreverent, Rhodri Glyn Thomas.

As I said last week, the Minister for Health and Social Services has given a commitment to hold a debate in the autumn. We will hold that debate in October; that is the appropriate time to hold it, as we will know the results of the £5 million investment in the personal dental services scheme, which he announced a few weeks ago, that follows the £5.5 million which went into the preparation of the new contract. However, I have secured a commitment from the Minister to issue a written statement on dentistry towards the end of this session. That will be timely in terms of demonstrating the interest with

Ymdriniwyd yn helaeth â'r rhaglen gyfalaf yn ystod cwestiynau i'r Prif Weinidog, a derbyniaf hefyd sylwadau Kirsty am y mater hwn. Mae'r Llywodraeth eisoes wedi rhyddhau i'r Cynulliad fanylion cyllideb y GIG, gan gynnwys manylion y rhaglen gyfalaf. Pam na allwch glodfori'r ffaith ein bod wedi treblu'r rhaglen gyfalaf ar gyfer y GIG yng Nghymru? Chi sydd yn traethu drwy'r amser am y fenter cyllid preifat; yr ydym yn treblu'r rhaglen gyfalaf i adeiladu ysbytai yng Nghymru. Clywsom am yr ymrwymiad i'r ysbyty sydd yn cael ei adeiladu yng Nghaerffili, ynghyd â'r ysbytai a adeiledir yn Nhreffynnon, Glyn Ebwy, Merthyr Tudful ac ar draws Cymru. Yr ydym eisoes wedi rhyddhau'r manylion ynghylch hyn; mae'n un o'r blaenoriaethau allweddol, a bydd ar bobl Cymru eisiau clywed am y buddsoddiad cyfalaf cyhoeddus hwn.

Aethoch yn eich blaen, Rhodri Glyn, i siarad am ddeintyddiaeth, a daeth Kirsty hefyd i mewn ar y pwynt hwn. [*Torri ar draws.*] Dyna chi, mae'r cynghrair bellach wedi ei sefydlu.

Y Llywydd: Trefn. Bu'n rhaid imi gael gair o'r blaen gyda'r Parchedig Rhodri Glyn Thomas. Nid yw'n briodol ichi wneud ymyriadau atodol pellach pan fydd y Gweinidog yn ymateb mewn trefn. Cynghoraf y Gweinidog i beidio â gwrando ar unrhyw beth y mae rhai sydd yn eistedd yn ei ddweud.

Jane Hutt: Oddi wrth y Parchedig, neu'r amharchus, Rhodri Glyn Thomas.

Fel y dywedais yr wythnos diwethaf, mae'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol wedi rhoi addewid y bydd yn cynnal dadl yn ystod yr hydref. Byddwn yn cynnal y ddadl hon ym mis Hydref; dyna'r amser priodol i'w chynnal, oherwydd y byddwn yn gwybod beth fydd canlyniadau'r buddsoddiad £5 miliwn yn y cynllun gwasanaethau deintyddol personol, cynllun a gyhoeddodd rai wythnosau yn ôl, buddsoddiad sydd yn dilyn y £5.5 miliwn a gyfrannwyd at baratoi'r contract newydd. Fodd bynnag, yr wyf wedi sicrhau addewid oddi wrth y Gweinidog y bydd yn cyflwyno

which personal dental schemes are being taken forward. You also have questioning opportunities during the Minister for Health and Social Services's report to committee and through Assembly questions.

datganiad ysgrifenedig am ddeintyddiaeth tuag at ddiwedd y cyfarfod hwn. Bydd hynny'n amserol er mwyn dangos y diddordeb mewn datblygu'r cynlluniau deintyddol personol. Mae gennych hefyd gyfleoedd i godi cwestiynau yn ystod adroddiad y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol gerbron y pwyllgor a thrwy gyfrwng cwestiynau'r Cynulliad.

3.10 p.m.

I am surprised that Caerphilly County Borough Council has been mentioned with regard to the important recommendations that came through the Local Government and Public Services Committee report, in which you were all engaged. It was an important report, the recommendations of which look at how to ensure that local government is delivered in partnership with the Welsh Assembly Government to ensure robust overview and scrutiny in local government.

Yr wyf yn synnu bod Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili wedi cael ei grybwyll yng nghyswllt yr argymhellion pwysig a ddaeth drwy gyfrwng adroddiad y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus, pwyllgor yr oeddech oll yn gysylltiedig ag ef. Yr oedd yn adroddiad pwysig, adroddiad yr oedd ei argymhellion yn edrych ar sut i sicrhau bod llywodraeth leol yn cael ei chyflawni mewn partneriaeth â Llywodraeth Cynulliad Cymru er mwyn sicrhau trosolwg a chraffu cadarn mewn llywodraeth leol.

I assure you that the Finance Minister is working with the Welsh Local Government Association to consider what progress can be made in relation to all the recommendations. Those recommendations include the issue of the allocation of scrutiny chairs, which is a matter for each local authority and is not one where the Government can tell local authorities what to do. The important point is that the Minister is working with the WLGA, and I am sure that the committee, and its Chair, Ann Jones, will also take this forward in terms of delivering on the report.

Yr wyf yn eich sicrhau bod y Gweinidog Cyllid yn gweithio gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i ystyried pa gynnydd y gellir ei wneud yng nghyswllt yr holl argymhellion. Ymysg yr argymhellion hyn yr oedd y cwestiwn o ddewis cadeiryddion pwyllgorau craffu, rhywbeth sydd yn fater i bob awdurdod lleol ac nid rhywbeth lle y gall y Llywodraeth ddweud wrth awdurdodau lleol beth i'w wneud. Y pwynt pwysig yw bod y Gweinidog yn gweithio gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, ac yr wyf yn sicr y bydd y pwyllgor, a'i Gadeirydd, Ann Jones, hefyd yn gweithredu ar hyn o safbwynt cyflawni'r hyn sydd yn yr adroddiad.

Can I just respond to Leighton briefly?

A gaf ymateb i Leighton yn fyr?

The Presiding Officer: Yes, Minister, you— [ASSEMBLY MEMBERS: 'Briefly.'] Order. The opposition frontbench is not presiding over this session. The relevant Standing Order clearly states that the Business Minister shall be entitled to reply, and she will do so.

Y Llywydd: Cewch, Weiniog, fe— [AELODAU'R CYNULLIAD: 'Yn fyr.'] Trefn. Nid mainc flaen yr wrthblaid sydd yn llywyddu dros y cyfarfod hwn. Dywed y Rheol Sefydlog berthnasol y bydd gan y Trefnydd yr hawl i ymateb, a gwnaiff hynny.

Jane Hutt: The business statement is an

Jane Hutt: Mae'r datganiad busnes yn rhan

important part of the process of government and scrutiny in the Assembly. Leighton made a serious point. We were reminded of two important points of history by Hywel Francis MP. We had 60,000 people working the south Wales coalfields 40 years ago. The National Union of Mineworkers at Cambrian Lodge was instrumental in developing the campaign for a minimum wage, which was realised by a Labour Government. I will certainly take forward the suggestion about a people's history museum discussion and debate in the Assembly.

bwysig o lywodraethu a chraffu yn y Cynulliad. Gwnaeth Leighton bwynt difrifol. Cawsom ein hatgoffa o ddau bwynt pwysig mewn hanes gan Hywel Francis AS. Yr oedd gennym 60,000 o bobl yn gweithio ym meysydd glo y De 40 mlynedd yn ôl. Cyfrannodd Undeb Cenedlaethol y Glowyr yn y Cambrian Lodge at ddatblygu'r ymgyrch i gael isafswm cyflog, a wireddwyd gan Lywodraeth Lafur. Derbyniaf yn bendant yr awgrym ynghylch cael dadl a thrafodaeth yn y Cynulliad am amgueddfa hanes y bobl.

Cynnig: O blaid 29, Ymatal 0, Yn erbyn 26.

Motion: For 29, Abstain 0, Against 26.

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Andrews, Leighton
Barrett, Lorraine
Butler, Rosemary
Chapman, Christine
Cuthbert, Jeff
Davidson, Jane
Davies, Andrew
Dunwoody-Kneafsey, Tamsin
Essex, Sue
Gibbons, Brian
Gregory, Janice
Griffiths, John
Gwyther, Christine
Hart, Edwina
Hutt, Jane
Idris Jones, Denise
James, Irene
Jones, Ann
Jones, Carwyn
Lewis, Huw
Lloyd, Val
Mewies, Sandy
Morgan, Rhodri
Neagle, Lynne
Pugh, Alun
Sargeant, Carl
Sinclair, Karen
Thomas, Catherine
Thomas, Gwenda

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:
The following Members voted against:

Bates, Mick
Black, Peter
Bourne, Nick
Burnham, Eleanor
Cairns, Alun
Davies, Glyn
Davies, Janet
Davies, Jocelyn
Francis, Lisa
German, Michael
Graham, William
Isherwood, Mark
Jones, Alun Ffred
Jones, Elin
Jones, Helen Mary
Jones, Ieuan Wyn
Jones, Laura Anne
Lloyd, David
Melding, David
Morgan, Jonathan
Randerson, Jenny
Ryder, Janet
Thomas, Owen John
Thomas, Rhodri Glyn
Williams, Brynle
Williams, Kirsty

Derbyniwyd y cynnig.

Motion carried.

Cynnig Cyfansawdd: Cymeradwyo Gorchmynion Composite Motion: Approval of Orders

Y Llywydd: O dan Reol Sefydlog Rhif 24.25, ni chynhelir dadl ar y cynnig hwn.

The Presiding Officer: Under Standing Order No. 24.25, this motion is not subject to debate.

The Business Minister (Jane Hutt): I propose that

Y Trefnydd (Jane Hutt): Cynigiaf fod

- | | |
|---|---|
| <i>the National Assembly for Wales, acting under Standing Order No. 24.25:</i> | <i>Cynulliad Cenedlaethol Cymru, gan weithredu o dan Reol Sefydlog Rhif 24.25:</i> |
| <i>1. a) considers the report of the Legislation Committee laid in the Table Office and e-mailed to Assembly members on 10 May 2005 on the draft Smoke Flavourings (Wales) Regulations 2005; and</i> | <i>1. a) yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ac a e-bostiwyd at Aelodau'r Cynulliad ar 10 Mai 2005 ar Reoliadau Cyflasynnau Mwg (Cymru) 2005; ac</i> |
| <i>b) approves that the Smoke Flavourings (Wales) Regulations 2005 are made in accordance with:</i> | <i>b) yn cymeradwyo bod Rheoliadau Cyflasynnau Mwg (Cymru) 2005 yn cael eu gwneud yn unol ag:</i> |
| <i>i) the draft regulations laid in the Table Office on 26 April 2005,</i> | <i>i) y rheoliadau drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 26 Ebrill 2005,</i> |
| <i>ii) the regulatory appraisal laid in the Table Office on 3 May 2005, and</i> | <i>ii) yr arfarniad rheoliadol a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 3 Mai 2005, a</i> |
| <i>iii) the memorandum of corrections laid in the Table Office and e-mailed to Assembly Members on 10 May 2005;</i> | <i>iii) y memorandwm cywiriadau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ac a e-bostiwyd at Aelodau'r Cynulliad ar 10 Mai 2005;</i> |
| <i>2. a) considers the report of the Legislation Committee laid in the Table Office and e-mailed to Assembly Members on 10 May 2005 on the draft Housing (Right to Buy) (Priority of Charges) (Wales) Order 2005; and</i> | <i>2. a) yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ac a e-bostiwyd at Aelodau'r Cynulliad ar 10 Mai 2005 ar Orchymyn Tai (Hawl i Brynu) (Blaenoriaeth Arwystlon) (Cymru) 2005; a</i> |
| <i>b) approves that the Housing (Right to Buy) (Priority of Charges) (Wales) Order 2005 are made in accordance with:</i> | <i>b) yn cymeradwyo bod Gorchymyn Tai (Hawl i Brynu) (Blaenoriaeth Arwystlon) (Cymru) 2005 yn cael ei wneud yn unol â:</i> |
| <i>i) the draft regulations laid in the Table Office on 3 May 2005,</i> | <i>i) y rheoliadau drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 3 Mai 2005,</i> |
| <i>ii) the regulatory appraisal laid in the Table Office on 3 May 2005. (NDM2436)</i> | <i>ii) yr arfarniad rheoliadol a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 3 Mai 2005. (NDM2436)</i> |

*Cynnig (NDM2436): O blaid 55, Ymatal 0, Yn erbyn 0.
Motion (NDM2436): For 55, Abstain 0, Against 0.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Andrews, Leighton
Barrett, Lorraine
Bates, Mick
Black, Peter
Bourne, Nick
Burnham, Eleanor
Butler, Rosemary
Cairns, Alun

Chapman, Christine
Cuthbert, Jeff
Davidson, Jane
Davies, Andrew
Davies, Glyn
Davies, Janet
Davies, Jocelyn
Dunwoody-Kneafsey, Tamsin
Essex, Sue
Francis, Lisa
German, Michael
Gibbons, Brian
Graham, William
Gregory, Janice
Griffiths, John
Gwyther, Christine
Hart, Edwina
Hutt, Jane
Idris Jones, Denise
Isherwood, Mark
James, Irene
Jones, Alun Ffred
Jones, Ann
Jones, Carwyn
Jones, Elin
Jones, Helen Mary
Jones, Ieuan Wyn
Jones, Laura Anne
Lewis, Huw
Lloyd, David
Lloyd, Val
Melding, David
Mewies, Sandy
Morgan, Jonathan
Morgan, Rhodri
Neagle, Lynne
Pugh, Alun
Randerson, Jenny
Ryder, Janet
Sargeant, Carl
Sinclair, Karen
Thomas, Catherine
Thomas, Gwenda
Thomas, Owen John
Thomas, Rhodri Glyn
Williams, Brynle
Williams, Kirsty

Lorraine Barrett: Fel pawb arall yn y Siambr, yr wyf yn cefnogi'r cynnig heddiw. Nid oes dim lle i hiliaeth yng Nghymru, ac ymunaf ag eraill i gondemnio troseddau hiliol o bob math. Ceir yn fy etholaeth, De Caerdydd a Phenarth, rai o gymunedau mwyaf amrywiol Cymru o ran ethnigrwydd, ac yr wyf yn falch o'r amrywiaeth diwylliannol ac ethnig cyfoethog hwnnw. Mae'r modd y mae'r cymunedau hyn wedi datblygu wedi cyfoethogi'r ardal gyfan. Fodd bynnag, er gwaethaf ymdrechion y cymunedau eu hunain, grwpiau gwirfoddol a Heddlu De Cymru, mae problemau, tensiynau a throseddau hiliol yn dal i ddigwydd. Llesteirir yr ymdrechion hyn oherwydd na roddir gwybod am bob trosedd hiliol o hyd. Yn gyffredinol, nid rhoi gwybod am drosedd hiliol yw'r ymateb cyntaf ar ôl digwyddiad. Dim ond pan fydd y dioddefwr wedi cyrraedd pen ei dennyn neu ei thenyn ac na all ddioddef rhagor o aflonyddu y rhoddir gwybod am droseddau fel arfer. Yna gall ef neu hi ddweud, 'Wel, ydyw, mae hon yn drosedd sydd wedi ei symbylu gan hiliaeth sy'n cael ei chyflawni yn fy erbyn'. Mae ymchwil gan Sefydliad Joseph Rowntree yn cadarnhau bod 25 y cant o bobl a oedd wedi profi erledigaeth a throseddu hiliol yn eu herbyn wedi gwneud hynny am 18 mis cyn rhoi gwybod amdano. Mae hynny'n gyhuddiad trist yn erbyn ein cymdeithas.

Mae mwy o berygl i lawer o bobl o gymunedau lleiafrifoedd ethnig ddioddef troseddau yn eu herbyn oherwydd bod y cymunedau hynny wedi'u canoli mewn dinasoedd mawr fel Caerdydd, Abertawe a Chasnewydd, lle y mae'r perygl i droseddu ddigwydd yn uwch yn gymharol nag mewn ardaloedd eraill. Mae'r ffaith bod rhai grwpiau lleiafrifoedd ethnig hefyd o dan anfantais yn economaidd yn golygu nid yn unig eu bod yn gorfod ymdopi ag effeithiau uniongyrchol tlodi, ond hefyd diffyg modd yn ariannol i'w hamddiffyn eu hunain rhag troseddu. Mae pobl o grwpiau lleiafrifoedd ethnig yn aml yn drwgdybio na fydd rhoi gwybod am drosedd hiliol yn cael ei gymryd o ddifrif, neu maent yn credu na all yr heddlu wneud dim beth bynnag—mae hynny'n rhywbeth a ddywedir wrthyf yn aml. Mae hynny'n llesteirio ymdrechion yr heddlu, sy'n gweithio'n galed iawn, yn enwedig yn yr

crime. It is only through increased reporting, and the mapping of racist incident hotspots so that the police and other agencies can ensure that resources are targeted effectively, that we will see a difference made.

Janet Ryder: I accept what you say about people in large, urban areas facing a higher risk of crime. However, do you not agree that the findings of a recent report on racist incidents turns that conventional wisdom on its head, as it shows that you are 16 times more at risk of a racist attack if you live in a rural area?

Lorraine Barrett: We all agree that if you are the victim of a racist attack or racist harassment and are living in a relatively isolated area, with a small ethnic minority population, the situation is even worse than it would be if you lived in the city. We must deal with the issue across the board, whether it occurs in rural or urban areas, and people should be able to report racial crime wherever they live, as I have already mentioned. There is no place for racism anywhere in Wales, but I take your point on board. I commend Cardiff's community safety partnership on its work. It works with South Wales Police and organisations such as Race Equality First, which is beginning to address the issue. I welcome the emphasis that the Government is placing on promoting a multi-agency approach in Wales, but we must do all that we can to ensure that race crimes are reported and that people are not afraid to report them. Reporting centres are a proven way of dealing with this. I attended one a few years ago in Cardiff. People can go to those centres for advice. They can be in a doctor's surgery, a school, a library or a neighbourhood housing office for example, and people will feel safe in being able to report race crimes there.

ardal hon, yr wyf yn ei hadnabod yn da, ac ymdrechion asiantaethau eraill, sy'n ymdrechu'n ddirfawr i fynd i'r afael â throseddu hiliol. Dim ond drwy roi gwybod am fwy o ddigwyddiadau, a mapio'r ardaloedd lle y mae digwyddiadau hiliol yn broblem fel bod yr heddlu ac asiantaethau eraill yn gallu sicrhau bod adnoddau'n cael eu targedu'n effeithiol, y gwelwn wahaniaeth yn cael ei wneud.

Janet Ryder: Yr wyf yn derbyn yr hyn a ddywedwch am bobl mewn ardaloedd trefol, mawr yn wynebu mwy o berygl i droseddu ddigwydd yn eu herbyn. Fodd bynnag, onid ydych yn cytuno bod canfyddiadau adroddiad diweddar ar ddigwyddiadau hiliol yn troi'r gred gonfensiynol honno ar ei phen, gan ei bod yn dangos eich bod yn wynebu cymaint 16 gwaith mwy o berygl o ymosodiad hiliol os ydych yn byw mewn ardal wledig?

Lorraine Barrett: Yr ydym i gyd yn cytuno, os ydych yn dioddef ymosodiad hiliol neu aflonyddu hiliol a'ch bod yn byw mewn ardal gymharol anghysbell, gyda phoblogaeth fach o leiafrifoedd ethnig, fod y sefyllfa hyd yn oed yn waeth nag a fyddai pe baech yn byw yn y ddinas. Rhaid inni ddelio â'r mater drwyddo draw, pa un a yw'n digwydd mewn ardaloedd gwledig neu drefol, a dylai pobl allu rhoi gwybod am droseddau hiliol ble bynnag y maent yn byw, fel yr wyf wedi sôn yn barod. Nid oes lle i hiliaeth yn unman yng Nghymru, ond yr wyf yn cydnabod eich pwynt. Yr wyf yn canmol partneriaeth diogelwch cymunedol Caerdydd ar ei gwaith. Mae'n gweithio gyda Heddlu De Cymru a sefydliadau fel Race Equality First, sy'n dechrau rhoi sylw i'r broblem. Yr wyf yn croesawu'r pwyslais y mae'r Llywodraeth yn ei roi ar hyrwyddo dull amlasiantaethol yng Nghymru, ond rhaid inni wneud popeth a allwn i sicrhau bod troseddau hiliol yn cael eu hadrodd ac nad oes ar bobl ofn rhoi gwybod amdanynt. Profwyd bod canolfannau adrodd yn ffordd o ddelio â hyn. Bùm yn un ohonynt yng Nghaerdydd rai blynyddol yn ôl. Gall pobl fynd i'r canolfannau hynny i gael cyngor. Gallant fod mewn meddygfa, ysgol, llyfrgell neu swyddfa tai ardal er enghraifft, a bydd pobl yn teimlo'n ddiogel wrth allu rhoi gwybod am droseddau hiliol yno.

I take this opportunity in closing to ask the Minister for Social Justice and Regeneration whether she will join me in a visit to Butetown police station to look at how it runs its ethnic minority support unit, which is considered exemplar throughout the UK.

4.00 p.m.

Peter Black: The Welsh Liberal Democrats are happy to support the motion and the three amendments. I put on record that, although we have not tabled an amendment because there is no easy, constructive way to tackle this issue, the motion that we have before us is very much a case of motherhood and apple pie—it is nice and we can all unite behind it—but we need some concrete changes as to how we tackle this, particularly the language used when we discuss asylum and immigration and related issues, which contributes quite markedly to the increase in racially motivated crime throughout Wales and the UK.

If anything, the use of language and the nature and tone of the debate on asylum and immigration, particularly during the general election and the period leading up to it, has not just been unfortunate, but has also created a climate in which some people—and I do not make excuses for them—have felt that the sort of crime recorded by these figures is acceptable and are encouraged to pursue it. I regret that that has happened. However, I think that we, as politicians—not only Welsh politicians, but also national politicians and parties—can change that. Instead of pandering to the lowest common denominator on these issues, if we stood up and took a moral stance, we could see a turnaround in the figures before us.

We have all referred to these figures in one way or another. Jane Hutt is right that, when you consider the increase in race crimes, the changes in how we record them and a heightened awareness have led to an increase. However, that is not all that is behind the increase. There has been an increase in race crime, which is regrettable, and we must recognise that fact. We cannot hide behind

Yr wyf yn achub ar y cyfle hwn wrth gloi i ofyn i'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio a wnaiff ymuno â mi ar ymweliad â gorsaf heddlu'r Drenwydd i weld sut y mae'n rhedeg ei huned cymorth i leiafrifoedd ethnig, sy'n cael ei hystyried yn esiampl i'w dilyn ledled y DU.

Peter Black: Mae Democratiaid Rhyddfrydol Cymru yn falch o gefnogi'r cynnig a'r tri gwelliant. Hoffwn gofnodi, er nad ydym wedi cyflwyno gwelliant gan nad oes dull hawdd, adeiladol o fynd i'r afael â'r mater hwn, fod y cynnig sydd ger ein bron i raddau helaeth yn rhywbeth y gall pawb gytuno arno—mae'n dda a gallwn i gyd uno y tu ôl iddo—ond mae angen newidiadau pendant yn y modd yr awn i'r afael â hyn, yn enwedig yr iaith a ddefnyddir pan fyddwn yn trafod materion yn ymwneud â lloches a mewnfudo a materion sy'n gysylltiedig â hynny, sydd yn cyfrannu'n eithaf sylweddol at y cynnydd mewn troseddu hiliol ledled Cymru a'r Deyrnas Unedig.

Os rhywbeth, bu'r defnydd o iaith a natur a thôn y ddadl ar loches a mewnfudo, yn enwedig yn ystod yr etholiad cyffredinol a'r cyfnod yn arwain ato, nid yn unig yn anffodus, ond hefyd yn fodd i greu hinsawdd lle yr oedd rhai pobl—ac ni wnaif esgusion drostynt—yn teimlo bod y math o drosedd a gofnodir gan y ffigurau hyn yn dderbyniol a bod anogaeth iddynt ddilyn y llwybr hwnnw. Gresynaf fod hynny wedi digwydd. Fodd bynnag, credaf y gallwn ni, wleidyddion—nid gwleidyddion yng Nghymru yn unig, ond gwleidyddion a phleidiau cenedlaethol hefyd—newid hynny. Yn lle ildio i'r nodwedd gyffredin ar y materion hyn, pe safem ar ein traed a chymryd safiad moesol, gallem weld gwyrddroi'r ffigurau sydd o'n blaenau.

Yr ydym i gyd wedi cyfeirio at y ffigurau hyn rywsut neu'i gilydd. Mae Jane Hutt yn llygad ei lle, pan ystyriwch y cynnydd mewn troseddau'n ymwneud â hil, fod y newidiadau yn y modd y'u cofnodwn a mwy o ymwybyddiaeth wedi arwain at gynnydd. Fodd bynnag, nid dyna'r cyfan sydd y tu ôl i'r cynnydd. Bu cynnydd mewn troseddau'n ymwneud â hil, sydd yn destun gofid, a rhaid

statistical anomalies and heightened awareness as a reason why such crime has increased. We must acknowledge that racist crime has increased in our communities and we must all tackle that. Until we accept that fact, we will not be able to tackle it.

In my city of Swansea, all crime has reduced by 13.2 per cent. Violent crime has fallen by 8.5 per cent, auto crime by 32 per cent, and burglary by 10 per cent, but racist incidents increased in the last year by 27.3 per cent. Racially aggravated crime has increased by 13.9 per cent. In Neath, racial incidents have increased by 117.8 per cent—from 73 to 159 incidents—and racially aggravated crime has increased by 18.5 per cent. I do not think Swansea is different from anywhere else, and certainly no more racist than any other part of Wales, but there have been changes and an increased awareness following the racially motivated murder that took place last autumn in the Kingsway. Following that murder, there was clear evidence of an increase in the number of racially motivated crimes reported. That is possibly through awareness and people reporting previous incidents at a later date, which must be acknowledged.

There has been an increase in reporting such crimes throughout Wales since the tragic terrorist attacks on New York in September 2001. The nature of the debate since then has worsened and has led to an increase in these figures.

I have gone through all the figures and I have more to say, but I am running out of time, so I will conclude by saying that there are a number of actions that the Assembly must take to deal with this. Education campaigns are important, as are working with the voluntary sector and issuing national guidance to agencies for monitoring and tackling racist incidents, sharing models of best practice and facilitating multi-agency co-operation. We must try to include other authorities such as the Children's

inni gydnabod y ffaith honno. Ni allwn guddio y tu ôl i anomaleddau ystadegol a mwy o ymwybyddiaeth fel rheswm pam y mae troseddau o'r fath wedi cynyddu. Rhaid inni gydnabod bod troseddau hiliol wedi cynyddu yn ein cymunedau a rhaid i bawb ohonom fynd i'r afael â hynny. Hyd nes y derbyniwn y ffaith honno, ni allwn fynd i'r afael â hyn.

Yn fy ninas i, Abertawe, mae troseddu yn gyffredinol wedi gostwng 13.2 y cant. Mae troseddu treisgar wedi gostwng 8.5 y cant, troseddau moduron 32 y cant, a bwrgeriaeth 10 y cant, ond bu cynnydd o 27.3 y cant mewn digwyddiadau hiliol yn y flwyddyn ddiwethaf. Mae troseddau a waethygir gan ffactorau hiliol wedi cynyddu 13.9 y cant. Yng Nghastell-nedd, bu cynnydd o 117.8 y cant mewn digwyddiadau hiliol—o 73 i 159 o ddigwyddiadau—ac mae troseddau a waethygir gan ffactorau hiliol wedi cynyddu 18.5 y cant. Ni chredaf fod Abertawe'n wahanol i unrhyw le arall, ac yn sicr nid yw'n fwy hiliol nag unrhyw ran arall o Gymru, ond mae newidiadau a mwy o ymwybyddiaeth wedi bod wedi'r llofruddiaeth hiliol a ddigwyddodd yr hydref diwethaf yn Ffordd y Brenin. Wedi'r llofruddiaeth honno, cafwyd tystiolaeth glir bod cynnydd yn nifer y troseddau hiliol yr oeddid yn adrodd amdanynt. Mae'n bosibl bod hynny oherwydd ymwybyddiaeth a bod pobl yn adrodd am ddigwyddiadau blaenorol yn ddiweddarach, rhaid cydnabod.

Mae cynnydd wedi bod o ran rhoi gwybod am droseddau o'r fath drwy Gymru gyfan ers yr ymosodiadau terfysgol trasig ar Efrog Newydd ym Medi 2001. Mae natur y ddadl ers hynny wedi gwaethygu ac wedi arwain at gynnydd yn y ffigurau hyn.

Yr wyf wedi mynd drwy'r ffigurau i gyd ac mae gennyf ragor i'w ddweud, ond mae fy amser yn dod i ben, felly i gloi dywedaf fod sawl peth y mae'n rhaid i'r Cynulliad eu gwneud i ddelio â hyn. Mae ymgyrchoedd addysg yn bwysig, ynghyd â chydweithio gyda'r sector gwirfoddol a chyhoeddi canllawiau cenedlaethol i asiantaethau ar gyfer monitro a delio â digwyddiadau hiliol, rhannu modelau o arferion da a hwyluso cydweithredu amlasiantaethol. Rhaid inni geisio cynnwys asiantaethau eraill fel

Commissioner for Wales and education authorities and encourage public bodies to review their functions and policies and consider their relevance to race equality at the earliest possible moment. All those issues are important and there is positive action that we can take. We must also change the language of the debate.

Val Lloyd: In Wales, we have a proud tradition of integration, and many people from a variety of ethnic mixes live and work side by side in my constituency. However, that does not hide the fact that racially motivated crime and harassment, regrettably, can and does take place on a daily basis.

The fact that Wales has not seen the vicious race riots witnessed elsewhere in the UK, does not mean that we do not have difficulties. As Peter said, last October in Swansea, the tragic racist killing of an Iraqi refugee sent shockwaves through the city. This vicious and racially motivated attack has raised people's awareness to the sad fact that many people in Swansea, and across Wales, remain victims of lesser, but equally abhorrent, racially motivated crimes.

In sentencing the perpetrator of Mr Karim's manslaughter, the judge said that the court will do whatever it can to ensure that racially motivated crimes are not tolerated, and that the people who commit such crimes will be severely dealt with. That is a message which must resound around Wales with the support of the Assembly, public bodies and the general public. The figures previously quoted show, to some extent, that people now feel safer in reporting racially motivated crime.

The first step must be taken by the Assembly. The Assembly must work as one to deliver the message that racism will not be tolerated in any form, and especially in the form of racially motivated crime. We must continue to attach great importance to promoting race equality and tackling racism head-on wherever we find it. Victims, witnesses and their families, as well as the general public, must be confident that the Assembly is

Comisiynydd Plant Cymru ac awdurdodau addysg ac annog cyrff cyhoeddus i adolygu eu swyddogaethau a'u polisiau ac ystyried eu perthnasedd i gydraddoldeb hiliol cyn gynted ag y cânt gyfle i wneud hynny. Mae'r materion hynny i gyd yn bwysig ac mae camau cadarnhaol y gallwn eu cymryd. Rhaid inni newid iaith y ddadl hefyd.

Val Lloyd: Yng Nghymru, mae gennym draddodiad balch o integreiddio, ac mae llawer o bobl o amrywiaeth o gymysgeddau ethnig yn byw ac yn gweithio ochr yn ochr yn fy etholaeth i. Fodd bynnag, nid yw hynny'n cuddio'r ffaith bod troseddau ac aflonyddu hiliol, ysywaeth, yn gallu digwydd ac yn digwydd yn feunyddiol.

Nid yw'r ffaith nad yw'r terfysgoedd hiliol mileinig a welwyd mewn rhannau eraill o'r Deyrnas Unedig wedi digwydd yng Nghymru yn golygu nad oes gennym ninnau drafferthion. Fel y dywedodd Peter, fis Hydref diwethaf yn Abertawe, syfrdanwyd y ddinas gyfan gan drasiedi lladd ffoadur o Irac oherwydd cymhellion hiliol. Mae'r ymosodiad milain a hiliol hwn wedi codi ymwybyddiaeth pobl o'r ffaith drist bod llawer o bobl yn Abertawe, a ledled Cymru, yn dal i ddioddef troseddau hiliol llai, ond yr un mor wrthun.

Wrth ddedfrydu'r sawl a oedd yn euog o ddynladdiad Mr Karim, dywedodd y barnwr y gwnaiff y llys beth bynnag a all i sicrhau na oddefir troseddau hiliol, ac yr ymdrinnir yn llym â'r bobl sy'n cyflawni troseddau o'r fath. Dyna neges y mae'n rhaid iddi atseinio o amgylch Cymru gyda chefnogaeth y Cynulliad, cyrff cyhoeddus a'r cyhoedd yn gyffredinol. Mae'r ffigurau a ddyfynnwyd yn gynharach yn dangos, i ryw raddau, fod pobl bellach yn teimlo'n fwy diogel wrth adrodd am droseddau hiliol.

Rhaid i'r Cynulliad gymryd y cam cyntaf. Rhaid i'r Cynulliad weithio fel un i gyhoeddi'r neges na chaniateir hiliaeth ar unrhyw ffurf, ac yn enwedig ar ffurf troseddau hiliol. Rhaid inni barhau i roi pwys mawr ar hybu cydraddoldeb hiliol a mynd i'r afael â hiliaeth yn uniongyrchol lle bynnag y deunw ar draws hynny. Rhaid i ddioddefwyr, tystion a'u teuluoedd, yn ogystal â'r cyhoedd yn gyffredinol, fod yn hyderus bod y

committed to working with the police, communities and other public services to reduce the number of racially motivated incidents in Wales.

The Swansea Bay Racial Equality Council plays a pivotal role in fighting for racial equality for all residents of the Swansea area. It is a small organisation, whose dedicated staff has delivered huge progress, and I have seen their valuable work first hand on many occasions. However, it has an arduous path ahead. Tackling racism and racially motivated crime is a difficult, but not impossible, task. It is the Assembly Government's role to deliver strong leadership and effective policies that will act as a catalyst for change, reflecting our collective will that racism is rooted out of Wales.

I am delighted that our race equality scheme, which seeks to forge a multi-agency approach, has been formally implemented, and I look forward to seeing the way in which the Welsh Assembly Government works with organisations such as the NHS, social services and the police. We must ensure that the scheme translates into progress at a community level. We must work with communities, build networks and deliver support mechanisms that give people the confidence to fight racism, and, even better, to stop racism at its inception.

Nick Bourne: This is an extremely important debate, and I am grateful to the Assembly Government for bringing it forward. I cannot remotely begin to understand why anyone should despise another person for the colour of their skin or racial origins—it seems to run against anything which judges people as individuals on the basis of their qualities and abilities.

The Minister is right to say that the perception of racially motivated crime, as is crime generally, is more serious than the reality, but there have been some high profile examples in the UK—the Stephen Lawrence case, the recent Zahid Mubarak case, and the dreadful murder of the Iraqi refugee in Swansea, as referred to by Peter Black and Val Lloyd. We have discussed the rise in the

Cynulliad wedi ymrwymo i gydweithio gyda'r heddlu, cymunedau a gwasanaethau cyhoeddus eraill i leihau nifer y digwyddiadau hiliol yng Nghymru.

Mae gan Gyngor Cydraddoldeb Hiliol Bae Abertawe ran allweddol wrth ymladd dros gydraddoldeb hiliol i holl drigolion ardal Abertawe. Corff bach ydyw, y mae ei staff ymroddedig wedi cymryd camau breision, ac yr wyf wedi gweld eu gwaith gwerthfawr dros fy hun ar sawl achlysur. Fodd bynnag, mae llwybr llafurus ganddo o'i flaen. Mae mynd i'r afael â hiliaeth a throseddau hiliol yn dasg anodd, ond nid amhosibl. Rôl Llywodraeth y Cynulliad yw cynnig arweiniad cryf a pholisïau effeithiol a fydd yn gweithredu fel catalydd dros newid, gan adlewyrchu ein hewyllys ni i gyd i ddileu hiliaeth o Gymru.

Yr wyf wrth fy modd bod ein cynllun cydraddoldeb hiliol, sydd yn ceisio sefydlu dull amlasiantaethol o weithredu, wedi'i roi ar waith yn ffurfiol, ac edrychaf ymlaen at weld sut y bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn gweithio gyda sefydliadau fel y GIG, gwasanaethau cymdeithasol a'r heddlu. Rhaid inni sicrhau bod y cynllun yn golygu symud ymlaen ar lefel gymunedol. Rhaid inni weithio gyda chymunedau, adeiladu rhwydweithiau a chyflwyno mecanweithiau cefnogi a fydd yn rhoi hyder i bobl ymladd yn erbyn hiliaeth ac, yn well byth, atal hiliaeth wrth iddo ddechrau.

Nick Bourne: Mae hon yn ddatl eithriadol o bwysig, ac yr wyf yn ddiolchgar i Lywodraeth y Cynulliad am ei chyflwyno. Ni allaf ddod yn agos at ddechrau deall pam y byddai neb yn casáu neb arall oherwydd lliw eu croen neu eu gwreiddiau hiliol—mae fel pe bai'n mynd yn groes i bob dim sy'n peri bod pobl yn cael eu barnu fel unigolion ar sail eu rhinweddau a'u galluedd.

Mae'r Gweinidog yn gywir pan ddywed fod y canfyddiad o droseddau hiliol, fel gyda throseddau yn gyffredinol, yn fwy difrifol na'r sefyllfa wirioneddol, ond cafwyd rhai enghreifftiau amlwg yn y DU—achos Stephen Lawrence, achos Zahid Mubarak yn ddiweddar, a llofruddiaeth erchyll y ffoadur o Irac yn Abertawe, y cyfeiriodd Peter Black a Val Lloyd ati. Yr ydym wedi trafod y

statistics, and one of the triggers—although it is no justification—was 11 September. The Minister referred to the establishment of the Inter-faith Council for Wales; I will return to that point.

Although crimes of violence are the most obvious and awful examples of racial hatred, they are not limited to that. Janet Ryder and Mark Isherwood referred to examples in rural Wales. When it happens in rural Wales—and I am aware that Lorraine Barrett has an example in her constituency, because of the greater population concentration—the isolation of people in rural communities, with no peer group, is a serious issue. I am currently dealing with a constituency case of racial harassment—though it is not a devolved issue—in the most remote community you can conceive of in Wales; it is a serious case.

4.10 p.m.

There is also an English-Welsh issue, which is a dimension that we must not neglect. This week, the front page headline of the *Cambrian News* in Aberystwyth is about racially motivated crime, and it is between Welsh and English people, which is equally abhorrent; it is not a crime of violence, but it is nevertheless a serious allegation and the case is still being considered.

We need to consider action. I associate myself with what Jane Hutt said about the importance of the inter-faith council. The First Minister deserves great credit for setting that up immediately in the aftermath of 9/11. It was, and is, a valuable body in which all of Wales's political parties and faiths are involved. It is cohesive, and I hope that it has played some part in trying to lessen tension in the aftermath of 9/11. It remains a body that meets on a regular, if not frequent, basis to deal with issues that arise. It is a very useful body.

In relation to the Queen's Speech—and from what I have seen, I am sure that there will be a lot in the Queen's Speech with which I disagree—I agree with the bringing forward of a crime of incitement to religious hatred. That is a gap in legislation that needs to be plugged, and I welcome that, as it will help to

cynnydd yn yr ystadegau, ac un o'r ffactorau sydd wedi ei ysgogi—er nad yw hynny'n gyfiawnhad—oedd 11 Medi. Cyfeiriodd y Gweinidog at sefydlu Cyngor Aml-ffydd Cymru; dychwelaf at y pwynt hwnnw.

Er mai troseddau treisiol yw'r enghreifftiau mwyaf amlwg ac erchyll o gasineb hiliol, nid yw'n gyfyngedig i hynny. Cyfeiriodd Janet Ryder a Mark Isherwood at enghreifftiau yng nghefn gwlad Cymru. Pan ddigwydd hyn yng nghefn gwlad Cymru—a gwn fod gan Lorraine Barrett enghraifft yn ei hetholaeth hi, oherwydd bod dwysedd y boblogaeth yn fwy—mae unigrwydd pobl mewn cymunedau gwledig, heb ddim grŵp cyfoedion, yn fater difrifol. Ar hyn o bryd yr wyf yn delio ag achos o aflonyddu hiliol yn yr etholaeth—er nad yw'n fater datganoledig—yn y gymuned fwyaf anghysbell y gallwch feddwl amdani yng Nghymru; mae'n achos difrifol.

Ceir problem rhwng Saeson a Chymry hefyd, sydd yn ddimensiwn nad oes wiw inni ei esgeuluso. Yr wythnos hon, mae pennawd tudalen flaen y *Cambrian News* yn Aberystwyth yn trafod troseddu hiliol, a hynny rhwng Cymry a Saeson, sydd yr un mor wrthun; nid trosedd dreisiol ydyw, ond serch hynny mae'n gyhuddiad difrifol ac mae'r achos yn dal i gael ei ystyried.

Mae angen inni ystyried gweithredu. Cytunaf â'r hyn a ddywedodd Jane Hutt am bwysigrwydd y cyngor aml-ffydd. Haedda'r Prif Weinidog glod mawr am sefydlu hwnnw yn syth wedi 9/11. Yr oedd, ac y mae, yn gorff gwerthfawr y mae pob plaid wleidyddol a phob crefydd yng Nghymru'n ymwneud ag ef. Mae'n gydlynol, a gobeithiaf ei fod wedi chwarae rhyw ran i geisio lleihau tyndra yn sgîl 9/11. Mae'n parhau'n gorff sydd yn cyfarfod yn rheolaidd, os nad yn fynych, i ddelio â materion sydd yn codi. Mae'n gorff defnyddiol iawn.

Yng nghyswllt Araith y Frenhines—ac yn ôl yr hyn a welais, yr wyf yn siŵr y bydd llawer yn Araith y Frenhines na fyddaf yn cytuno ag ef—yr wyf yn cyd-fynd â chyflwyno trosedd annog casineb crefyddol. Mae hynny'n fwllch mewn deddfwriaeth y mae angen ei gau, a chroesawaf hynny, gan y bydd yn gymorth i

tackle this serious problem. Naturally, the focus here has been on criminality, but it is not just about crime and law and order; it is about education and example, and about having role models. We have some impressive role models in Wales, as in the wider UK; that is immensely important. We live in a multicultural society, and we are richer for that. We are fortunate in having examples in Wales like Colin Jackson, Jamie Baulch, and in the wider UK, Kelly Holmes and Nasser Hussain. When we reach a position where we can say that they are role models and an example to all of Welsh youth, and to all British youth, rather than an example to people of an ethnic minority, as we tend to say, we will have reached the position of racial and religious tolerance that we must reach in Wales and in the wider United Kingdom.

Gwenda Thomas: I am pleased to support the motion. I will focus my attention on the importance of the National Assembly for Wales's second race equality scheme, to which Mark referred.

The National Assembly for Wales has a statutory duty to ensure that equality of opportunity is embedded in its work. Unlawful racial discrimination can lead to anti-social behaviour, race hatred and race crime and disenchantment with the rule of law by both perpetrators and victims. Unlawful racial discrimination must, therefore, be eliminated, and race equality and good race relations promoted. The Committee on Equality of Opportunity has produced a mainstreaming equality report and the response of the Minister, Jane Hutt, to that report has been positive. I applaud the Welsh Assembly Government's aim to incorporate the race equality scheme into an overarching mainstreaming equalities strategy. The Race Relations (Amendment) Act 2000 imposes a general duty on specified public bodies in Britain requiring them, in carrying out their functions, to have due regard to the need to eliminate unlawful racial discrimination.

In community safety, the race equality

fynd i'r afael â'r broblem ddifrifol hon. Wrth reswm, canolbwyntiwyd yma ar yr elfen droseddol, ond nid mater o drosedd a chyfraith a threfn yn unig yw hyn; mae a wnelo ag addysg ac esiampl, ac â chael modelau rôl. Mae gennym fodolau rôl da yng Nghymru, fel yn y DU yn ehangach; mae hynny'n hynod o bwysig. Yr ydym yn byw mewn cymdeithas aml-ddiwylliant, ac yr ydym yn gyfoethocach o'r herwydd. Yr ydym yn ffodus o gael enghreifftiau yng Nghymru fel Colin Jackson, Jamie Baulch, ac yn y DU yn ehangach, Kelly Holmes a Nasser Hussain. Pan gyrhaeddwn sefyllfa lle y gallwn ddweud eu bod yn fodolau rôl ac yn esiampl i holl ieuenctid Prydain, yn hytrach nag yn esiampl i bobl o leiafrif ethnig, fel y tueddwn i ddweud, byddwn wedi cyrraedd y sefyllfa o oddefgarwch hiliol a chrefyddol y mae'n rhaid inni ei chyrraedd yng Nghymru ac yn y Deyrnas Unedig yn ehangach.

Gwenda Thomas: Yr wyf yn falch o gefnogi'r cynnig. Canolbwyntiaf fy sylw ar bwysigrwydd ail gynllun cydraddoldeb hiliol Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y cyfeiriodd Mark ato.

Mae gan y Cynulliad Cenedlaethol ddyletswydd statudol i sicrhau bod cyfle cyfartal wedi'i wreiddio yn ei waith. Gall gwahaniaethu anghyfreithlon ar sail hil arwain at ymddygiad gwrthgymdeithasol, casineb hiliol a throeddau hiliol a dadrithiad â rheolaeth y gyfraith gan y troseddwr a'r dioddefwyr fel ei gilydd. Rhaid dileu gwahaniaethu anghyfreithlon ar sail hil felly, a hyrwyddo cydraddoldeb hiliol a chysylltiadau hiliol da. Mae'r Pwyllgor Cyfle Cyfartal wedi llunio adroddiad ar brif ffrydio cydraddoldeb ac mae ymateb y Gweinidog, Jane Hutt, i'r adroddiad hwnnw wedi bod yn gadarnhaol. Cymeradwyaf nod Llywodraeth Cynulliad Cymru i ymgorffori'r cynllun cydraddoldeb hiliol mewn strategaeth gyffredinol ar brif ffrydio cydraddoldeb. Mae Deddf Cysylltiadau Hiliol (Diwygio) 2000 yn gosod dyletswydd gyffredinol ar gyrff cyhoeddus penodol ym Mhrydain sy'n mynnu y dylent, wrth gyflawni eu swyddogaethau, roi'r ystyriaeth ddyledus i'r angen i ddileu gwahaniaethu anghyfreithlon ar sail hil.

O ran diogelwch cymunedol, mae'r cynllun

scheme commits the National Assembly to developing strategies to oppose racial violence and harassment in Wales through partnership. The scheme also commits the Assembly to supporting local government in its promotion of race equality and to fostering the promotion of race equality in the voluntary sector. Successful implementation of this race equality scheme will be crucial in the fight against racially motivated crime. Each and every Member has a responsibility to support the Welsh Assembly Government in its determination to become an exemplar public authority in developing long term changes that will contribute to the elimination of unlawful racial discrimination and all its implications.

John Griffiths: This is a welcome and important debate. Representing a constituency with a significant ethnic minority population, I am well aware of many of the issues that have already been raised. I am sad to say that there is an awful lot of racism in our communities. It has been partly fuelled by 11 September, and I think that it has definitely been worse after the terrible events of that day. It has also been fuelled by concern surrounding asylum seeker and refugee issues, which are obviously subject to much distortion, misinformation and sensationalism, largely by the UK tabloid press. The local press in Wales is much better, and often quite positive. However, the national UK tabloid press has been very damaging to good community relations. As Peter Black rightly said, all politicians have a responsibility to be very careful about what they say, given that we contribute markedly to the atmosphere that permeates our society and country. We all have a big responsibility.

I am well aware of the increase in hostility, abuse and violence against our ethnic minority population, which is a big concern. Black people in particular are visibly different, and this often makes them more of a target. It is clear that the perception is sometimes worse than the reality. People feel

cydraddoldeb hiliol yn rhwymo'r Cynulliad Cenedlaethol i ddatblygu strategaethau i wrthwynebu trais ac aflonyddu hiliol yng Nghymru drwy bartneriaeth. Mae'r cynllun hefyd yn rhwymo'r Cynulliad i gefnogi llywodraeth leol wrth iddi hyrwyddo cydraddoldeb hiliol yn y sector gwirfoddol. Bydd gweithredu'r cynllun cydraddoldeb hiliol hwn yn llwyddiannus yn allweddol yn y frwydr yn erbyn troseddu hiliol. Mae gan bob un Aelod gyfrifoldeb i gefnogi Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ei phenderfyniad i fod yn esiampl o awdurdod cyhoeddus wrth ddatblygu newidiadau hirdymor a fydd yn cyfrannu at ddileu gwahaniaethu hiliol anghyfreithlon a'i holl oblygiadau.

John Griffiths: Mae hon yn ddadl bwysig ac yn un i'w chroesawu. Gan fy mod yn cynrychioli etholaeth sydd â phoblogaeth sylweddol o leiafrifoedd ethnig, yr wyf yn gyfarwydd iawn â llawer o'r materion sydd wedi eu codi eisoes. Trist iawn yw dweud bod llawer iawn o hiliaeth yn ein cymunedau. Mae pethau wedi gwaethygu'n rhannol yn sgîl digwyddiadau 11 Medi, ac yr wyf yn sicr bod y sefyllfa wedi dwysáu ar ôl digwyddiadau ofnadwy'r diwrnod hwnnw. Mae wedi ei dwysáu hefyd gan bryderon ynghylch materion sy'n gysylltiedig â cheiswyr lloches a ffoaduriaid, sydd yn amlwg yn agored i gael eu camliwio, eu camddehongli a'u chwyddo y tu hwnt i bob rheswm, a hynny'n bennaf gan bapurau tabloid y DU. Mae'r wasg leol yng Nghymru'n llawer gwell, ac mae'n eithaf positif yn aml. Fodd bynnag, mae papurau tabloid cenedlaethol y DU wedi gwneud llawer o niwed i gysylltiadau cymunedol. Fel y dywedodd Peter Black yn hollol gywir, mae gan bob gwleidydd gyfrifoldeb i fod yn ofalus iawn ynglŷn â'r hyn y maent yn ei ddweud, o gofio ein bod yn cyfrannu mewn ffordd amlwg at yr hinsawdd sy'n datblygu yn ein cymdeithas a'n gwlad. Mae cyfrifoldeb mawr ar ein hysgwyddau.

Yr wyf yn ymwybodol iawn o'r cynnydd sydd wedi bod yn yr atgasedd, y gamdriniaeth a'r trais tuag at y boblogaeth o leiafrifoedd ethnig, ac mae hynny'n bryder mawr. Mae pobl ddu yn enwedig yn wahanol mewn modd gweladwy, ac mae hyn yn aml yn eu gwneud yn fwy o darged. Mae'n amlwg

threatened, and understandably so, and that greatly impairs their quality of life.

I grew up in Pill, Newport, where there is great cultural diversity. Although there were problems—and it was not a land of milk and honey in terms of community relations when I was growing up—there were many positive aspects. I feel that it was an enriching experience to have had that variety and diversity of culture, music, clothing and cuisine. That general cultural diversity was a positive, enriching and good experience.

As I said, there are issues. There is much good work going on. For example, the Maindee festival in Newport East, which is an annual multicultural festival, does great work. The Communities First ethnic minority community of interest scheme has great potential. Many community groups are doing good work, as well as the police. We have a multi-agency approach, with the work of the Welsh Refugee Council and the South East Wales Racial Equality Council. There is a lot of good and positive work going on, but there are still problems.

Janet Ryder: I am glad that you have noted the great deal of positive work that is going on in communities. Will you join me in congratulating the North Wales Race Equality Network on the excellent work that it is doing as the only group undertaking this work in north Wales, and will you urge your Government to re-examine its funding of this project, otherwise it will collapse in September?

John Griffiths: There are many good groups doing much good work in Wales, Janet. I am not aware of the details of that particular matter, and I am sure that it will be addressed in due course.

One of the problems that I have recently noted is that in some schools in multicultural areas, there is a trend towards greater segregation. I think that this is unfortunate and problematic. Sometimes, as the black and

bod y canfyddiad weithiau'n waeth na'r realiti. Mae pobl yn teimlo dan fygythiad, ac mae hynny'n ddealladwy, ac mae'n amharu'n fawr ar ansawdd eu bywyd.

Cefais fy magu ym Mhillgwenlly, Casnewydd, ardal sydd ag amrywiaeth ddiwylliannol fawr. Er bod yno broblemau—nid oedd yn wlad o laeth a mêl o ran cysylltiadau cymunedol pan oeddwn yn tyfu—ond yr oedd yno nifer o agweddau positif. Teimlaf fod byw gyda'r fath amrywiaeth o ran diwylliant, cerddoriaeth, dillad a bwyd yn brofiad gwerthfawr. Yr oedd yr amrywiaeth ddiwylliannol gyffredinol yn brofiad positif, cyfoethog a da.

Mae gennym broblemau, fel y dywedais eisoes. Mae llawer o waith da'n cael ei wneud. Er enghraifft, mae gŵyl Maendy yn Nwyrain Casnewydd, sy'n ŵyl aml-ddiwylliant flynyddol, yn gwneud gwaith rhagorol. Mae cynllun buddiannau cyffredin lleiafrifoedd ethnig Cymunedau yn Gyntaf yn dangos cryn botensial. Mae llawer o grwpiau cymunedol yn gwneud gwaith da, yn ogystal â'r heddlu. Mae gennym ymagwedd amlasiantaethol, gyda gwaith Cyngor Ffoaduriaid Cymru a Chyngor Cydraddoldeb Hiliol De Ddwyrain Cymru. Mae llawer o waith da a phositif yn cael ei wneud, ond mae problemau yn aros, er hynny.

Janet Ryder: Yr wyf yn falch ichi ddweud bod llawer o waith positif yn cael ei wneud mewn cymunedau. A wnewch ymuno â mi i longyfarch Rhwydwaith Cydraddoldeb Hiliol Gogledd Cymru ar y gwaith rhagorol y mae'n ei wneud fel yr unig grŵp sy'n gwneud y math hwn o waith yn y Gogledd, ac a wnewch bwyso ar eich Llywodraeth i edrych eto ar y modd y mae'n ariannu'r prosiect hwn, neu bydd yn dod i ben ym mis Medi?

John Griffiths: Mae nifer o grwpiau da yng Nghymru sy'n gwneud llawer o waith da, Janet. Nid wyf yn gyfarwydd â manylion y mater arbennig hwn, ac yr wyf yn siŵr y caiff sylw yn y man.

Un o'r problemau yr wyf wedi sylwi arnynt yn ddiweddar yw'r duedd mewn rhai ysgolion mewn ardaloedd aml-ddiwylliant i gael mwy o wahanu. Yr wyf yn credu bod hyn yn anffodus ac yn achosi problemau. Weithiau,

ethnic minority population increases, so the white population decreases. That is something that I have noted with concern, because many of the positive attitudes that we want to see will start at school. Schools are very important in conveying positive messages.

It is important that the Assembly sets an example, as was mentioned earlier. I was pleased to be part of the Assembly football team that helped launch the race equality scheme by playing against a Butetown team and a team of asylum seekers and refugees. It was a positive occasion that was well received. We may make it an annual event, and I think that that would be very good.

In conclusion, the essential truth from this debate is that society as a whole suffers as a result of racial hostility and crime. It can make Wales a less attractive, more unpleasant place to live in, and people have a poorer quality of life. Whatever our ethnic background, we all have everything to gain from making Wales a place with greater racial harmony and less conflict and discrimination in its communities, cities, towns and villages. If we can work towards that aim, it would be of great benefit to everybody living in Wales.

4.20 p.m.

Christine Chapman: Like other Members, I welcome the debate. Racially motivated crime is a direct product of racism. This is about the Government taking a holistic approach. Dealing with racism should be high on the political agenda, but that does not mean that it should be used as a political football. I regret that we are at a time when parties of the extreme right, such as the British National Party, are threatening to tap into a potential vacuum left by a disaffection with mainstream politics by appealing to people's xenophobic instincts. I am pleased that the BNP managed to put up only 2 candidates in Wales in the general election, when it fielded a record 119 candidates across the UK. However, it is important that

wrth i boblogaeth y bobl dduon a lleiafrifoedd ethnig gynyddu, mae'r boblogaeth wyn yn gostwng. Mae hyn yn rhywbeth yr wyf wedi sylwi arno gyda phryder, oherwydd bydd llawer o'r agweddau positif yr ydym am eu gweld yn dechrau yn yr ysgol. Mae ysgolion yn bwysig iawn i gyflwyno negeseuon positif.

Mae'n bwysig bod y Cynulliad yn gosod esiampl, fel y dywedwyd yn gynharach. Yr oeddwn yn falch o fod yn rhan o dîm pêldroed y Cynulliad a helpodd i lansio'r cynllun cydraddoldeb hiliol drwy chwarae yn erbyn tîm o'r Drenewydd, Caerdydd a thîm o geiswyr lloches a ffoaduriaid. Yr oedd yn ddigwyddiad positif a chafodd dderbyniad cynnes. Efallai y byddwn yn ei wneud yn rhywbeth blynyddol, a chredaf y byddai hynny'n beth da iawn.

I gloi, y gwir sylfaenol sy'n deillio o'r ddadl hon yw ein bod ni i gyd yn y gymdeithas yn gyffredinol yn dioddef o ganlyniad i gasineb a throeddu hiliol. Gall wneud Cymru'n lle llai deniadol a mwy annymunol i fyw ynddo, ac mae'n cael effaith andwyol ar ansawdd bywyd pobl. Beth bynnag fo'n cefndir ethnig, gall pob un ohonom fod ar ein hennill o wneud Cymru'n wlad â mwy o gytgord hiliol a llai o wrthdaro a gwahaniaethu yn ei chymunedau, ei dinasoedd, ei threfi a'i phentrefi. Pe galleu weithio tuag at y nod hwnnw, byddai o fudd mawr i bawb sy'n byw yng Nghymru.

Christine Chapman: Fel yr Aelodau eraill, yr wyf yn croesawu'r ddadl hon. Mae troseddu sy'n cael ei sbarduno gan hil yn deillio'n uniongyrchol o hiliaeth. Mae hyn yn golygu bod rhaid i'r Llywodraeth fabwysiadu ymagwedd gyfannol. Dylai mynd i'r afael â hiliaeth fod yn uchel ar yr agenda wleidyddol, ond nid yw hynny'n golygu y dylai gael ei ddefnyddio'n arf gwleidyddol. Mae'n anffodus ein bod yn byw mewn cyfnod pan fo pleidiau'r dde eithafol, megis y British National Party, yn bygwth manteisio ar y gwagle posibl sy'n cael ei greu o ganlyniad i ddadrihiad gyda gwleidyddiaeth brif ffrwd drwy apelio at reddfau senoffobig pobl. Yr wyf yn falch mai dim ond 2 ymgeisydd a oedd gan y BNP yng Nghymru yn yr etholiad

we are not complacent about judging the threat of the BNP in Wales, and that we are proactive in promoting tolerance and awareness to undermine the ignorance and fear upon which racism thrives.

It is particularly important that, as parties, we deal with race issues in a responsible manner and work together in partnership rather than in conflict. In doing so, we need to send a clear sign to the BNP that its message of racism and intolerance is not welcome in Wales. We also need to challenge the myth that racism is not a problem in areas where there are few black and minority ethnic people, and I appreciate the discussion that we have had so far in the debate. First, it is through denial that racism is allowed to grow and go unchecked. Secondly, the impact on victims of racist abuse and harassment is compounded when the victim is more isolated.

Racism is not always recorded as a reported crime but we know that it exists. It exists in the form of graffiti daubed on the walls of people's houses, verbal abuse of shopkeepers and owners of restaurants and, in some cases, intimidation and physical attacks. Members will be aware of the awful case in Swansea. Racism also includes abuse directed at white English, Irish and Scottish residents of Wales, which I appreciate that Nick has already mentioned. This was raised by the Valleys Race Equality Council, which has already identified the problem. This sense of difference is greater for people in smaller minorities.

Reports show that the number of racist incidents rose during 2003-04 compared to the previous year. It is important to note that these are recorded incidents, and it is only when racism is reported and acknowledged that we can truly deal with it. Therefore, our approach should be twofold—it should be about strong responses to those who commit

cyffredinol, yn enwedig gan fod ganddynt 119 o ymgeiswyr, ei nifer uchaf erioed, ledled y DU. Mae'n bwysig, fodd bynnag, nad ydym yn diystyru bygythiad y BNP yng Nghymru, a'n bod yn rhagweithiol wrth hybu goddefgarwch a chodi ymwybyddiaeth er mwyn tanseilio'r anwybodaeth a'r ofn y mae hiliaeth yn dibynnu arnynt i ffynnu.

Mae'n bwysig dros ben ein bod, fel pleidiau, yn delio â materion hil mewn ffordd gyfrifol ac yn gweithio gyda'n gilydd mewn partneriaeth yn hytrach nag achosi gwrthdaro. Drwy wneud hyn, rhaid inni ddatgan yn glir wrth y BNP nad oes croeso i'w neges hiliol ac anoddefgar yng Nghymru. Rhaid inni hefyd ddangos mai myth yw'r haerid nad yw hiliaeth yn broblem mewn ardaloedd lle nad oes llawer o bobl dduon a lleiafrifoedd ethnig yn byw, ac yr wyf yn gwerthfawrogi'r drafodaeth yr ydym wedi ei chael hyd yma yn y ddadl. Yn gyntaf, mae gwadu'r gwirionedd yn caniatáu i hiliaeth ffynnu a thyfu'n ddilyffethair. Yn ail, mae effeithiau cam-drin ac aflonyddu hiliol ar y dioddefwyr yn waeth byth pan fo'r dioddefwr yn fwy ynysig.

Nid yw hiliaeth bob amser yn cael ei chofnodi'n drosedd ond gwyddom ei bod yn digwydd. Mae i'w gweld ar ffurf graffiti wedi ei baentio ar waliau tai pobl, siopwyr a pherchnogion tai bwyta sy'n gorfod dioddef iaith anweddus a bygythiol ac, mewn rhai achosion, bygythiadau ac ymosodiadau corfforol. Bydd yr Aelodau'n ymwybodol o'r achos difrifol yn Abertawe. Mae hiliaeth hefyd yn cynnwys achosion o gasineb sydd wedi eu hanelu at Saeson, Gwyddelod ac Albanwyr gwyn sy'n byw yng Nghymru, yr wyf yn sylweddoli bod Nick wedi sôn amdanynt eisoes. Codwyd y mater hwn gan Gyngor Cydraddoldeb Hiliol y Cymoedd, sydd eisoes wedi gweld y broblem hon. Mae'r ymdeimlad hwn o fod yn wahanol yn cael ei deimlo'n ddwysach yn achos pobl sy'n perthyn i leiafrifoedd llai.

Mae adroddiadau'n dangos bod nifer y digwyddiadau hiliol wedi codi yn ystod 2003-04 o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Mae'n bwysig nodi mai achosion a gofnodwyd yw'r rhain, a dim ond pan gaiff achosion o hiliaeth eu cofnodi a'u cydnabod y gallwn ddelio â'r peth mewn gwirionedd. Felly, dylem ymdrin â hyn mewn dau ddull—

racially motivated crimes through the judicial system, and about a determination to stop racism developing at its roots, by strangling it of the oxygen of hate and intolerance that it needs to grow and survive.

Y Dirprwy Lywydd: Dim ond aelodau o'r pwyllgor sydd yn dymuno gwneud

make contributions, therefore I will be able to call them all.

David Lloyd: We are here, this afternoon, to discuss the content of this report on the regulation and inspection of public services in Wales. I commend Ann Jones, as Chair, and the committee secretariat on their work in bringing together the various strands of information from the various oral and written presentations that we received during the course of this committee review. As Ann has mentioned, the regulation and inspection regime in Wales is highly complex, as noted in the report. Not only are there a plethora of bodies, but their regulatory and inspection functions vary in scope, and different people have different control over who or what is inspected at any given time.

In the time that I have available, I will concentrate on a few of the recommendations. In the chapter on regulation and inspection as mechanisms for improvement, there are some strong recommendations, such as recommendation 4.7:

‘We recommend that the Welsh Assembly Government should seek to develop a measure of the level of improvement that results from the inspection regime’.

That is an important concept to grasp: the whole point of inspection is that it leads to an improvement in services. Also important is recommendation 4.13, that

‘the Welsh Assembly Government should ensure that measures that can be taken against failing organisations should be made clearer to all involved’.

All of this, as was demonstrated in the evidence presented to us, has budgetary implications. As we note in paragraph 4.17,

‘capacity and support were identified as key issues by inspected bodies following inspection. If there is a problem a body needs support, not another inspection telling it that it has not improved’.

This means funding, not only in monetary

cyfraniadau, felly byddaf yn gallu galw ar bob un ohonynt.

David Lloyd: Yr ydym yma y prynhawn yma i drafod cynnwys yr adroddiad hwn ar reoleiddio ac arolygu gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru. Yr wyf yn cymeradwyo Ann Jones, y Cadeirydd, ac ysgrifenyddiaeth y pwyllgor ar eu gwaith yn dwyn ynghyd yr amryfal elfennau o wybodaeth o'r gwahanol gyflwyniadau llafar ac ysgrifenedig a gawsom yn ystod yr adolygiad pwyllgor hwn. Fel y soniodd Ann, mae'r drefn rheoleiddio ac arolygu yng Nghymru'n hynod o gymhleth, fel y nodir yn yr adroddiad. Nid yn unig y mae llw o gyrff, ond mae eu swyddogaethau rheoleiddio ac arolygu'n amrywio o ran cwrmpas, ac mae gan wahanol bobl wahanol reolaeth dros bwy neu beth a arolygir ar unrhyw adeg benodol.

Yn yr amser sydd ar gael imi, canolbwytiaf ar ychydig o'r argymhellion. Yn y bennod ar reoleiddio ac arolygu fel mecanweithiau ar gyfer gwella, ceir ambell argymhelliad cryf, fel argymhelliad 4.7:

‘Argymhellwn y dylai Llywodraeth y Cynulliad Cenedlaethol geisio datblygu mesur o'r lefel o wellhad sydd yn deillio o'r drefn arolygu’.

Mae hynny'n gysyniad y mae'n bwysig ei ddeall: holl ddiben arolygu yw ei fod yn arwain at welliant yn y gwasanaethau. Mae argymhelliad 4.13 yn bwysig hefyd, sef

‘y dylai Llywodraeth y Cynulliad Cenedlaethol sicrhau y caiff pawb eglurhad cliriach o'r camau y gellir eu cymryd yn erbyn sefydliadau sydd yn methu’.

Mae i hyn oll, fel y dangoswyd yn y dystiolaeth a gyflwynwyd inni, oblygiadau cyllidebol. Fel y nodwn ym mharagraff 4.17,

‘nodwyd gallu a chefnogaeth fel materion allweddol gan gyrff a arolygwyd wedi'r arolwg. Os oes problem, mae ar gorff angen cefnogaeth, nid arolwg arall yn dweud wrtho nad yw wedi gwella’.

Mae hyn yn golygu cyllido, nid yn unig

terms, but in terms of additional staff—I am talking about social workers, specifically—and additional staff training, as required.

Turning to another chapter, another important aspect is the burden of the inspection versus the risk. The Wales programme for improvement is based on the principle that regulation must be proportionate to risk. We took evidence from Care Forum Wales, which gave us the perspective of private care home owners, who feel that there should be fewer inspections of low-risk homes, offset by more unannounced inspections. That could consolidate a more risk-based approach. There is a strong recommendation in 5.7 that

‘those organisations that carry out inspections should start to move towards a more risk based assessment system’.

Finally, there is the chapter headlined “Joined-up thinking” in regulation and inspection’. We took a lot of evidence that said that the lack of joined-up thinking among the regulation and inspection bodies was the issue that caused the most concern to the service providers. As has been mentioned, sometimes a terrific burden is placed on inspected bodies. For an inspection regime to be effective, it should not place an undue burden on service providers. As a committee, we consider that the burden could be further reduced by regulation and inspection bodies taking a more co-ordinated approach. Otherwise, you get paralysis by analysis, which is what we are trying to avoid. Recommendation 7.11 spells it out:

‘we recommend that inspection bodies should liaise over their inspection programmes to ensure that the burden of inspection is not increased by several different inspections within a short timeframe’.

4.50 p.m.

We took several bits of evidence to that end. A final recommendation that I want to highlight is 7.16,

‘that the Welsh Assembly Government and inspection bodies consider initiatives such as

mewn termau ariannol, ond yn nhermau staff ychwanegol—yr wyf yn sôn am weithwyr cymdeithasol, yn benodol—a hyfforddiant ychwanegol i’r staff, yn ôl y galw.

A throi at bennod arall, agwedd bwysig arall yw baich yr arolwg yn erbyn y risg. Mae rhaglen Cymru ar gyfer gwella yn seiliedig ar yr egwyddor bod yn rhaid i’r rheoleiddio fod yn gymesur â’r risg. Cawsom dystiolaeth gan Fforwm Gofal Cymru, a roddodd inni safbwynt perchenogion cartrefi gofal preifat, sydd yn teimlo y dylai fod llai o arolygon ar gartrefi risg isel, a mwy o arolygon dirybudd yn lle hynny. Gallai hynny gyfnerthu dull sy’n fwy seiliedig ar y risg. Ceir argymhelliad cryf yn 5.7

‘y dylai’r cyrff hynny sydd yn cynnal arolygon ddechrau symud tuag at drefn asesu sydd yn fwy seiliedig ar y risg’.

Yn olaf, ceir y bennod dan y pennawd “Meddwl cydlynol” wrth reoleiddio ac arolygu’. Cawsom lawer o dystiolaeth a ddywedai mai’r diffyg meddwl cydlynol ymysg y cyrff rheoleiddio ac arolygu oedd y broblem a barai’r pryder mwyaf i’r darparwyr gwasanaethau. Fel y soniwyd, weithiau gosodir baich aruthrol ar gyrff a arolygir. Er mwyn i drefn arolygu fod yn effeithiol, ni ddylai osod baich gormodol ar ddarparwyr gwasanaethau. Fel pwyllgor, credwn y gellid lleihau’r baich ymhellach pe bai cyrff rheoleiddio ac arolygu yn mynd ati mewn modd mwy cydgyssylltiedig. Fel arall, fe geir parlys drwy ddadansoddi, sef yr hyn yr ydym yn ceisio’i osgoi. Mae argymhelliad 7.11 yn egluro’r sefyllfa:

‘argymhellwn y dylai cyrff arolygu gysylltu â’i gilydd ynglŷn â’u rhaglenni arolygu er mwyn sicrhau na chynyddir baich arolygu drwy gynnal sawl arolwg gwahanol o fewn cyfnod amser byr’.

Cawsom sawl tystiolaeth i’r perwyl hwnnw. Yr argymhelliad olaf yr hoffwn dynnu sylw ato yw 7.16,

‘y dylai Llywodraeth y Cynulliad Cenedlaethol a chyrrff arolygu ystyried

the Joint Scrutiny Forum website'

mentrau megis gwefan y Cyd-Fforwm Craffu'

and the work happening in Scotland with the Scottish Executive charter for inspectorates there, to encourage liaison work between inspection bodies. In conclusion, I look forward to the Assembly Government's response to these recommendations, and to their enactment shortly afterwards, so that they can bring about meaningful change for the better in regulation and inspection in Wales.

a'r gwaith sydd yn digwydd yn yr Alban gyda siarter Gweithrediaeth yr Alban ar gyfer cyrff arolygu yn y fan honno, i annog cydweithredu rhwng cyrff arolygu. Wrth gloi, edrychaf ymlaen at ymateb Llywodraeth y Cynulliad i'r argymhellion hyn, ac at eu gweithredu'n fuan wedyn, fel y gallant ddod â newid ystyrllon er gwell mewn rheoleiddio ac arolygu yng Nghymru.

Brynle Williams: As the newly elected Conservative Party spokesman on local government and public services, I am delighted to have the opportunity to speak to this report. One of the most important aspects of local government is the delivery of public services, and we need to strive to improve them.

Brynle Williams: Fel llefarydd newydd y Blaid Geidwadol ar lywodraeth leol a gwasanaethau cyhoeddus, yr wyf wrth fy modd o gael y cyfle i siarad am yr adroddiad hwn. Un o agweddau pwysicaf llywodraeth leol yw darparu gwasanaethau cyhoeddus, ac mae angen ymdrechu i'w gwella.

I was pleased to see that the Welsh Assembly Government, in its consultation document, 'Making the Connections: Delivering Better Services for Wales' recognises the need to strengthen, improve and enhance aspects of the regulation and inspection regime to ensure that Wales's public services are accountable, efficient and effective. This is essential in order to oversee the running of key front-line services.

Yr oeddwn yn falch o weld bod Llywodraeth Cynulliad Cymru, yn ei dogfen ymgynghori, 'Creu'r Cysylltiadau: Gwell Gwasanaethau i Gymru', yn cydnabod yr angen i gryfhau a gwella rhai agweddau ar y drefn rheoleiddio ac arolygu i sicrhau bod gwasanaethau cyhoeddus Cymru'n atebol, yn effeithlon ac yn effeithiol. Mae hyn yn hanfodol er mwyn goruchwyllo'r modd y mae gwasanaethau rheng flaen allweddol yn cael eu darparu.

This report discusses many key threads and issues that are relevant to local government. In order for the people of Wales to work with all tiers of government, we need to ensure that consultation is at the top of our list of priorities. No-one can deny that there are serious problems in many of our public services. Today I read about the Leonard Cheshire charity, which is launching its manifesto in this building today, calling for improved services for disabled people in Wales. We know that the lack of care home beds in the principality is at crisis point, and I understand that in Cardiff there are almost no beds available, and there are very limited places within a 50 mile radius. These are just a few of the issues that are crying out for funding and assistance.

Mae'r adroddiad hwn yn trafod llawer o elfennau a materion allweddol sydd yn berthnasol i lywodraeth leol. Er mwyn i bobl Cymru weithio gyda phob haen o lywodraeth, mae angen inni sicrhau bod ymgynghori ar ben ein rhestr o flaenoriaethau. Ni all neb wadu nad oes problemau difrifol mewn llawer o'n gwasanaethau cyhoeddus. Heddiw darllenais am elusen Leonard Cheshire, sydd yn lansio'i maniffesto yn yr adeilad hwn heddiw, yn galw am wasanaethau gwell i bobl anabl yng Nghymru. Gwyddom fod y diffyg gwelyau mewn cartrefi gofal yng Nghymru yn argyfyngus, a deallaf nad oes dim gwelyau ar gael bron yng Nghaerdydd, ac ychydig iawn o leoedd o fewn cylch o 50 milltir. Dim ond ychydig o'r materion sydd yn crefu am gyllid a chymorth yw'r rhain.

We need to remove as much red tape and bureaucracy as we can to ensure that the

Mae angen inni ddileu cymaint o dâp coch a biwrocratiaeth ag a allwn i sicrhau bod y

front-line professionals can deliver. I would not dream of telling a surgeon how to conduct an operation or a teacher how to teach, so I feel that politicians should stop interfering in the running of public services, and allow front-line staff the freedom and confidence to deliver them. Our staff know what the problems and challenges are and we can work together within the parameters in order to provide excellent services. I am looking forward to sitting on the Local Government and Public Services Committee and hope that all Members can work together to support councils, irrespective of their political control, to ensure that people who live and work in Wales receive the excellent services that they deserve.

Michael German: I also express my appreciation for the team that put this report together, the clerks and so on. This may appear to be a dry report, but it is of substantive interest to those engaged in delivering public services in Wales. In the evidence that we received, it was interesting that there were disparities of views between those who felt that their inspection regime was inaccurate or incorrect, those who felt that there was too much inspection, and those who felt that it was not possible to resolve the conflict between inspection and regulation.

It is the latter view that I will start with, because the purpose of inspection is sometimes to ensure that regulations are being carried out and are being followed to the letter, and that the regulations that have been laid down in Government are being executed by the public services. There are others who feel that the purpose of inspection is also to act as a helpful friend, enabling people to make appropriate changes to their work practices and make advancements in their daily work. Some of the inspection regimes found that difficult because some inspectors themselves said that it was difficult to be both the gatekeeper and the helpful friend. There are some clear recommendations in this report that will help to avoid, and to bridge, that divide.

gweithwyr proffesiynol yn y rheng flaen yn gallu gwneud eu gwaith. Ni fyddwn yn breuddwydio am ddweud wrth lawfeddyg sut i roi llawdriniaeth neu wrth athro sut i ddysgu, felly teimlaf y dylai gwleidyddion roi'r gorau i ymyrryd â rheolaeth gwasanaethau cyhoeddus, a chaniatáu i'r staff yn y rheng flaen y rhyddid a'r hyder i'w cyflwyno. Gŵyr ein staff beth yw'r problemau a'r sialensiau, a gallwn gydweithio o fewn y paramedrau er mwyn darparu gwasanaethau rhagorol. Yr wyf yn edrych ymlaen at eistedd ar y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus a gobeithiaf y gall yr holl Aelodau gydweithio i gefnogi cynghorau, dan ba reolaeth wleidyddol bynnag y bônt, i sicrhau bod pobl sydd yn byw ac yn gweithio yng Nghymru yn cael y gwasanaethau rhagorol y maent yn eu haeddu.

Michael German: Mynegaf finnau fy ngwerthfawrogiad i'r tîm a luniodd yr adroddiad hwn, y clercod ac yn y blaen. Efallai fod hwn yn ymddangos yn adroddiad sych, ond mae o ddiddordeb sylweddol i'r rhai sydd wrthi'n darparu gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru. Yn y dystiolaeth a gawsom, yr oedd yn ddiddorol bod gwahaniaethau barn rhwng y rhai a deimlai fod eu trefn arolygu'n wallus neu'n anghywir, y rhai a deimlai fod gormod o arolygu, a'r rhai a deimlai nad oedd modd datrys y gwrthdaro rhwng arolygu a rheoleiddio.

Gyda'r farn olaf honno y dechreuaf, oherwydd pwrpas arolygu weithiau yw sicrhau bod rheoliadau'n cael eu cyflawni ac yn cael eu dilyn i'r llythyren, a bod y rheoliadau a bennwyd gan y Llywodraeth yn cael eu gweithredu gan y gwasanaethau cyhoeddus. Mae eraill sydd yn teimlo mai pwrpas arolygu hefyd yw gweithredu fel cyfaill parod i gynorthwyo, gan alluogi pobl i wneud newidiadau priodol i'w harferion gwaith a symud ymlaen yn eu gwaith beunyddiol. Yr oedd hynny'n anodd i rai o'r cyrff arolygu oherwydd dywedodd rhai arolygwyr eu hunain ei bod yn anodd bod yn ddidolwr ac yn gyfaill parod i gynorthwyo ar yr un pryd. Mae rhai argymhellion clir yn yr adroddiad hwn a fydd yn gymorth i osgoi, ac i bontio, y gagendor hwnnw.

As others have said, inspection is not cheap; it is costly, and we are not just talking about the cost in monetary terms of the inspection regimes that we already have, but also the cost in terms of the time of those who are being inspected. We heard from some local authority people who had been inspected not just once, not just twice, but three times by different inspection bodies coming at them from different angles. There must surely be room for rationalisation in that regard.

I suppose that part of the problem is that there is no across-the-board methodology that is used for inspection. That might be a way to reduce the costs of this service in terms of the time of those inspected. Looking for savings in that regard may be a way forward.

I was impressed by the number of inspectors and those inspected who felt that they should have less of a regular regime, particularly given their level of risk, and more of what I call the 'secret shopper', namely someone turning up on the doorstep and asking questions, rather like the *Egon Ronay Guide* does with restaurants, to find out what is really happening from the point of view of the client. There are two sides to being a secret shopper. There are those who will just turn up, but are inspecting in their own way, and there are those who are seeking to find out how the service feels from the consumer or the client's point of view.

The potential for inspection regimes to work together is explored fully in this document and, as a way of reducing the burden, the Minister should look at how inspectors can turn up together and do things together to try to avoid the duplication that is sometimes evident, and the consequent pressures.

This report offers great benefits to those who are inspected and the inspection regimes, and we now look to the guidance given in the report coming forward in the form of concrete actions from the Minister.

Alun Ffred Jones: Diolchaf i Ann Jones, y Cadeirydd, ac i'r tîm cefnogol am eu gwaith.

Mae nifer o argymhellion defnyddiol yn yr

Fel y dywedodd eraill, nid proses rad yw arolygu; mae'n gostus, ac nid sôn yr ydym am gost y cyrff arolygu sydd gennym eisoes mewn termau ariannol yn unig, ond hefyd y gost yn nhermau amser y rhai a arolygir. Clywsom gan rai mewn awdurdodau lleol a oedd wedi cael eu harolygu nid unwaith, nid dwywaith, ond dair gwaith gan wahanol gyrff arolygu a ddeuai atynt o wahanol onglau. Rhaid bod lle i resymoli yn hynny o beth.

Mae'n debyg mai rhan o'r broblem yw nad oes methodoleg gyffredinol a ddefnyddir ar gyfer arolygu. Gallai hynny fod yn ddull o leihau costau'r gwasanaeth hwn yn nhermau amser y rhai a arolygir. Gallai edrych am arbedion yn hynny o beth fod yn ffordd ymlaen.

Yr oedd yn fy nharo bod cynifer o'r arolygwyr a'r rhai a arolygid yn teimlo y dylent gael llai o drefn reolaidd, yn enwedig o ystyried eu lefel o risg, a mwy o'r hyn a alwaf yn 'gwsmer cudd', hynny yw, rhywun yn glanio ar stepen y drws ac yn gofyn cwestiynau, yn weddol debyg i'r hyn y mae'r *Egon Ronay Guide* yn ei wneud gyda thai bwyta, i ganfod beth sydd yn digwydd mewn gwirionedd o safbwynt y cleient. Mae dwy agwedd i weithredu fel cwsmer cudd. Ceir rhai sydd yn cyrraedd yno, ond sydd yn arolygu yn eu ffordd eu hunain, a cheir rhai sydd yn ceisio canfod sut deimlad sydd i'r gwasanaeth o safbwynt y defnyddiwr neu'r cleient.

Archwilir yn llawn y potensial i gyfundrefnau arolygu gydweithio yn y ddogfen hon ac, fel modd i leihau'r baich, dylai'r Gweinidog edrych ar sut y gall arolygwyr ymweld gyda'i gilydd a gwneud pethau gyda'i gilydd i geisio osgoi'r dyblygu a welir weithiau, a'r pwysau a ddaw yn sgîl hynny.

Mae'r adroddiad hwn yn cynnig manteision mawr i'r rhai a arolygir ac i'r cyrff arolygu, ac yr ydym yn awr yn disgwyl i'r arweiniad a roddir yn yr adroddiad gael ei droi'n weithredu pendant gan y Gweinidog.

Alun Ffred Jones: I thank Ann Jones, the Chair, and the support team for their work.

There are several useful recommendations in

adroddiad, ond yr wyf am godi tri mater lle mae angen gofal, yn fy marn i. Mae'r cyntaf yn gwestiwn. Sut y mae sicrhau bod argymhellion yr adroddiad yn cael eu gweithredu? Mae'r cwestiwn hwn yn codi ynghylch pob adroddiad pwyllgor. Cofiwch mai un o argymhellion cadarnaf adroddiad diwethaf y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus oedd sicrhau bod cynghorau yn rhannu cadeiriau pwyllgorau craffu yn ôl cydbwysedd gwleidyddol. Fodd bynnag, er gwaethaf yr adroddiad ac arweiniad y Gweinidog, mae'n amlwg, o'n profiad diweddar yng Nghaerffili a lleoedd eraill, nad oes dim wedi newid. Mae hyn yn sialens i'r Llywodraeth, gan nad oes pwrpas cynhyrchu'r adroddiadau hyn os nad oes dim byd yn digwydd fel canlyniad.

Mae'r ail sylw yn cyfeirio at bwynt 6.4, sydd yn sôn am yr angen i wella dulliau o hunan-asesu ar gyfer arolygiadau. Yr oeddwn yn arwain Cyngor Gwynedd, ac yr oedd y blynyddoedd cynnar o dan Lafur yn rhai hunllefus i lywodraeth leol. Yr oedd un drefn arolygu ac un archwiliad beichus a di-drefn ar ôl y llall. Fodd bynnag, mae'n rhaid inni fod yn ofalus nad ydym yn anghofio pwrpas arolygu, sef gwella ansawdd y gwasanaeth. Yr wyf wedi cael profiad o archwiliadau beirniadol iawn sydd wedi arwain at newid a gwella, ac mae perygl y gall gorbwysleisio hunan-asesu arwain at sefyllfa lle nad oes dim byd yn newid. Bu i Graham Williams yn ei adroddiad y llynedd—neu yn yr adroddiad yr oedd yn gweithio arno y llynedd—ar wasanaethau cymdeithasol roi'r rhybudd hwn:

'Mae hefyd yn bwysig nodi bod asesiadau'r awdurdodau lleol o'u sefyllfa eu hunain yn fwy ffafriol na chanfyddiadau'r archwiliad mewn nifer o ffyrdd.'

Mae hynny yn dangos inni efallai fod tuedd i gyrff cyhoeddus fod yn rhy hunanfodlon, a siaradaf fel cyn arweinydd sy'n ymwybodol o'r perygl hwnnw mewn sefydliadau cyhoeddus.

Yn olaf, mae pwynt 4.14 yn cyfeirio at ddiwygio deddfwriaeth, os oes angen hynny. Un maes y mae angen gweithredu arno ar fyrder yw'r iaith Gymraeg, sy'n prysur ddiflannu oddi ar radar llywodraeth leol. Nid

this report, but I wish to raise three matters over which care needs to be taken, in my opinion. The first is a question. How do you ensure that the report's recommendations are implemented? This question arises for every committee report. You will recall that one of the strongest recommendations of the Local Government and Public Services Committee's last report was to ensure that councils shared the chairing of scrutiny committees according to political balance. However, despite the report and the Minister's guidance, it is evident, from our recent experience in Caerphilly and other places, that nothing has changed. This is a challenge to the Government as there is no point in producing these reports if nothing happens as a result.

The second comment refers to point 6.4, which mentions the need to improve methods of self-assessment for inspections. I was the leader of Gwynedd Council, and the early years under Labour were a nightmare for local government. There was one inspection regime and one burdensome and disorganised inspection after the other. However, we must be careful not to lose sight of the purpose of inspection, which is to improve the quality of the service. I have had experience of very critical inspections that have led to change and improvement, and there is a risk that over-emphasising self-assessment could lead to a situation where nothing changes. Graham Williams, in his report last year—or in the report that he was working on last year—on social services gave this warning:

'It is also important to note that local authorities' assessments of their own situation are more favourable than the findings of the inspection in several ways.'

That demonstrates that there is perhaps a tendency for public bodies to be too complacent, and I speak as a former leader who is aware of that risk in public organisations.

Finally, point 4.14 refers to reforming legislation, if that is needed. One field in which action needs to be taken quickly is the Welsh language, which is fast disappearing from local government radar. No non-

oes un mesurydd anstatudol yn ymwneud â'r iaith Gymraeg sy'n dangos perfformiad cynghorau lleol. Sut, felly, y gellir mesur eu cynnydd yn wrthrychol yn y maes trawsbynciol hwn? Gyda Bwrdd yr Iaith Gymraeg ei hun yn diflannu, nid oes unrhyw un wedi esbonio eto sut y bydd y gwaith rheoleiddio yn digwydd yn y dyfodol. Gallai hynny fod yn rheswm arall dros ddiwygio'r ddeddf iaith bresennol, neu greu un newydd—gwaith ardderchog i'r Cynulliad, pe bai'n gorff gwerth ei halen, â'r hawl i lunio deddfwriaeth. Gyda'r pwyntiau hynny, dywedaf eto fod nifer o'r argymhellion yn synhwyrol iawn, ond i'r adroddiad brofi ei werth, rhaid iddo wneud gwahaniaeth.

Glyn Davies: I, too, endorse the congratulatory remarks made by Dai Lloyd and Mike German about the inclusive and balanced way in which the Chair of the committee has managed this whole debate over the last 12 months. It has been a real pleasure for me, as party spokesman, to be involved in all this work.

We are dealing with an important issue in the delivery of public services. Most of the discussions that we have about public services involve the money that is being invested in them. Often, we have debates where the Government says that more money is being invested and there are arguments about that, but securing value for that money is the most important part. Ensuring that the regulation and inspection is done efficiently and in a way that secures value for money is also important. We need an effective internal and external review, and that is the issue that we have been looking at.

It is crucially important—and this is the real nub of what the report is about—that all this inspection and regulation is put to good effect. One of the things that I took from the evidence that we received was that, while there was a great deal of inspection and regulation, there was an element of duplication. Changes could be introduced which would make the whole regime more effective. It will be challenging for the Government, in responding to and acting on the committee report, to ensure less

statutory indicators on the Welsh language demonstrate the performance of local councils. How, therefore, can their progress be objectively measured on this cross-cutting issue? With the Welsh Language Board itself disappearing, no-one has yet explained how the regulation work will be undertaken in the future. This could be another reason for reforming the present language act, or even for creating a new one—an excellent job for the Assembly, if it was a body worth its salt, with primary law-making powers. With those points, I repeat that a number of the recommendations are very sensible, but for the report to prove its worth, it must make a difference.

Glyn Davies: Yr wyf finnau'n ategu'r sylwadau canmoliaethus a wnaed gan Dai Lloyd a Mike German am y ffordd gynhwysol a chytbwys y bu i Gadeirydd y pwyllgor reoli'r drafodaeth hon yn ei chyfanrwydd dros y 12 mis diwethaf. Pleser pur i mi, fel llefarydd y blaid, fu bod yn rhan o'r holl waith hwn.

Yr ydym yn delio â mater pwysig o ran darparu gwasanaethau cyhoeddus. Mae'r rhan fwyaf o drafodaethau a gawn ynglŷn â gwasanaethau cyhoeddus yn ymdrin â'r arian sy'n cael ei fuddsoddi ynddynt. Yn aml, cawn drafodaethau lle y bydd y Llywodraeth yn dweud bod mwy o arian yn cael ei fuddsoddi ac fe geir dadleuon am hynny, ond sicrhau gwerth am yr arian hwnnw yw'r elfen bwysicaf. Mae sicrhau bod y broses rheoleiddio ac arolygu yn gweithredu'n effeithiol ac mewn ffordd sy'n sicrhau gwerth am arian hefyd yn bwysig. Mae arnom angen adolygiad mewnol ac allanol effeithiol, a dyna'r mater yr ydym wedi bod yn ei ystyried.

Mae'n allweddol bwysig—a dyma wir hanfod yr adroddiad—fod budd gwirioneddol yn deillio o'r holl arolygu a rheoleiddio sy'n digwydd. Un o'r pethau a'm trawodd yn y dystiolaeth a dderbyniwyd gennym oedd, er bod llawer o arolygu a rheoleiddio, fod cryn ddyblygu. Gellid cyflwyno newidiadau a fyddai'n gwneud y drefn gyfan yn fwy effeithiol. Bydd yn her i'r Llywodraeth, wrth ymateb i adroddiad y pwyllgor a gweithredu arno, sicrhau llai o ddyblygu wrth arolygu a mwy o gydgyssylltu rhwng y gwahanol

duplication in inspection and more co-ordination between the various arms of inspection. 'Joined-up working' is the phrase that is used in the report; that is a challenge for the Government in terms of ensuring that that actually happens. It must also ensure that all of this inspection and review feeds into an ongoing plan for improvement in public services.

Another point that has been raised—and I reiterate it because it feeds into another point that was raised by Alun Ffred Jones—is the issue of proportionality. Inspection needs to be proportionate to risk, and within local government, which delivers many of our public services, I would welcome seeing more of that inspection conducted within local government itself via the new arrangements of scrutiny. That was very much a part of the Welsh Local Government Association's evidence to the committee. However, for that to be an accepted and recommended part of the review process, we must get rid of this concept of a gatekeeper on the scrutiny committees. I do not know the exact details of what has happened at Caerphilly County Borough Council, but I was disappointed about the great deal of publicity it received. I am sure that other councils in Wales do the same thing, because I have heard the same complaints from other places, but if local government is serious about wanting to introduce self-regulation, which should be the norm, it must accept that it must have scrutiny committees that are genuinely independent and that cannot act as gatekeepers. I do not know whether it is happening in Caerphilly, or if that is the intention, but it certainly looks as though it might be. Local government must address that, if it is to be taken seriously. The reporting that we have seen is responsible for losing a great deal of respect for local government as a whole and for the inspection regime.

On the question of planned and unplanned inspection, I am a firm advocate of the unplanned inspection, which, in many ways, is much more helpful. There is no point in having an inspection when everything has been prepared for that particular inspection. That paints a false picture and cannot be helpful to the organisation being inspected. It

elfennau sy'n arolygu. Y gair a ddefnyddir yn yr adroddiad yw 'gweithio di-fwllch'; ac mae hynny'n her sy'n wynebu'r Llywodraeth o ran sicrhau bod hynny'n digwydd mewn gwirionedd. Rhaid iddi hefyd sicrhau bod yr holl arolygu ac adolygu yn cyfrannu at gynllun parhaus ar gyfer gwella gwasanaethau cyhoeddus.

Pwynt arall a godwyd—ac yr wyf yn ei ailadrodd gan ei fod yn berthnasol i bwynt arall a godwyd gan Alun Ffred Jones—yw cwestiwn cymesuredd. Rhaid i'r arolygu fod yn gymesur â'r risg, ac o fewn llywodraeth leol, sy'n darparu llawer o'n gwasanaethau cyhoeddus, byddwn yn croesawu gweld mwy o'r arolygu hwnnw yn cael ei wneud o fewn llywodraeth leol ei hun, drwy gyfrwng y trefniadau craffu newydd. Yr oedd hyn yn amlwg iawn yn nhystiolaeth Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i'r pwyllgor. Fodd bynnag, cyn i hynny fod yn rhan dderbyniol a chymeradwy o'r broses adolygu, rhaid inni gael gwared â'r cysyniad hwn o ddidolwr ar y pwyllgorau craffu. Nid wyf yn gyfarwydd ag union fanylion yr hyn a ddigwyddodd yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili, ond fe'm siomwyd gan yr holl sylw a gafodd. Yr wyf yn sicr bod cynghorau eraill yng Nghymru yn gwneud yr un peth, oherwydd yr wyf wedi clywed yr un gŵyn o loedd eraill, ond os yw llywodraeth leol o ddifrif ynglŷn â'i hawydd i gyflwyno hunan-reoleiddio, sef yr hyn a ddylai fod yn norm, rhaid iddi dderbyn bod rhaid iddi gael pwyllgorau craffu sy'n wirioneddol annibynnol ac yn rhai na allant weithredu fel didolwyr. Nid wyf yn gwybod a yw hynny'n digwydd yng Nghaerffili, nac ai hynny yw'r bwriad, ond ceir yr argraff bendant bod hynny'n bosibl. Rhaid i lywodraeth leol fynd i'r afael â hynny, os yw i gael ei chymryd o ddifrif. Collodd llywodraeth leol yn ei chyfanrwydd, a'r drefn arolygu, llawer o barch yn sgîl yr adroddiadau a welsom.

O ran arolygiadau gyda rhybudd ac arolygiadau dirybudd, yr wyf yn gadarn o blaid arolygiadau dirybudd sydd, mewn sawl ffordd, yn llawer mwy buddiol. Nid oes dim diben cynnal arolygiad pan fo popeth wedi ei baratoi ar gyfer yr arolygiad penodol hwnnw. Mae hynny'n creu darlun ffug ac ni all fod o gymorth i'r sefydliad sy'n cael ei arolygu.

is crucial that all deliverers of public services approach inspection and regulation with an open mind. No matter what legislation the Government introduces in response to the report, unless those who deliver public services are open to accepting regulation and to seeing it as a useful tool and a help in terms of improving their services, nothing we do here will be wholly effective. That is one of the committee's and the Government's biggest challenges.

Ann Jones: I thank members of the committee for their contributions to this report. Only when you try to work out what you are going to say about a detailed report such as this, do you realise how grateful you are to committee members for taking up the points that you managed to put briefly on record.

On Dai's point about the Scottish Executive's model for the child probation service, we will be watching progress with that because when we visited Scotland, we were all impressed by how they had managed to establish that joined-up working.

To answer Brynle's question, of course we will all work together for the good of public services because, at some point, we will all be public-service users and will want to avail ourselves of those services. Therefore, I welcome you to the committee and I am sure that you will enjoy your time as a member and will play an active role.

Mike German talked about the plethora of evidence received, which all came down to the theme of the joined-up approach to inspections and to the fact that people felt that we should think more about the timing of inspections. The committee thought hard about that.

Alun Ffred is right to say that the committee's recommendations are only as good as those who implement them. We will ensure that that will happen. A great deal of background work is invested in producing a

Mae'n hanfodol bod pawb sy'n darparu gwasanaethau cyhoeddus yn edrych â meddwl agored ar arolygu a rheoleiddio. Pa ddeddfwriaeth bynnag y mae'r Llywodraeth yn ei chyflwyno fel ymateb i'r adroddiad, os nad yw'r rhai sy'n darparu gwasanaethau cyhoeddus yn agored i dderbyn rheoleiddio, a'i ystyried yn gyfrwng defnyddiol a chymorth iddynt wella eu gwasanaethau, yna ni fydd dim a wnawn ni yma yn hollol effeithiol. Mae hynny'n un o'r heriau mwyaf sy'n wynebu'r pwyllgor a'r Llywodraeth.

Ann Jones: Carwn ddiolch i aelodau'r pwyllgor am eu cyfraniadau i'r adroddiad hwn. Dim ond pan fyddwch yn ceisio meddwl am yr hyn yr ydych yn bwriadu ei ddweud am adroddiad manwl fel hwn y dewch i sylweddoli pa mor ddiolchgar ydych i aelodau pwyllgor am ddilyn y pwyntiau y llwyddasoch i'w cofnodi'n fras.

Ynglŷn â phwynt Dai am fodel Gweithrediaeth yr Alban ar gyfer y gwasanaeth prawf i blant, byddwn yn cadw golwg ar ei ddatblygiad, oherwydd pan ymwelsom â'r Alban, gwnaed argraff ffafriol iawn arnom gan y modd yr oeddent wedi llwyddo i sefydlu'r gweithio di-fwlch hwnnw.

Ac ateb cwestiwn Brynle, wrth gwrs y byddwn i gyd yn gweithio gyda'n gilydd er budd gwasanaethau cyhoeddus oherwydd, ar ryw adeg neu'i gilydd, bydd pawb ohonom yn ddefnyddwyr gwasanaethau cyhoeddus a byddwn am fanteisio ar y gwasanaethau hynny. Felly, yr wyf yn eich croesawu i'r pwyllgor ac yr wyf yn sicr y byddwch yn mwynhau eich cyfnod fel aelod ac y byddwch yn cyfrannu'n weithredol ato.

Cyfeiriodd Mike German at y doreth o dystiolaeth a gafwyd, ac yn y bôn yr oedd a wnelo hynny â thema y dull cydgysylltiedig o ymdrin ag arolygiadau a'r ffaith bod pobl yn credu y dylem feddwl mwy am amseru arolygiadau. Bu'r pwyllgor yn ystyried hynny'n ddwys.

Mae Alun Ffred yn llygad ei le pan ddywed nad yw argymhellion y pwyllgor ond cyn gadarned â'r bobl sy'n eu gweithredu. Fe sicrhawn y bydd hynny'n digwydd. Mae cynhyrchu adroddiad yn ffrwyth llafur llawer

report and I, for one, do not want to see it simply propping up the piano legs of chief executive officers up and down the country. Therefore, I will ensure that the recommendations of this report, as with the first report, are implemented.

Glyn is right: everyone wants to see value for money on inspection services. We want to move forward with providing that value for money and safety for the service users in terms of knowing that they are using a service that is inspected and regulated. Most people, when carrying out their services, did not fear the planned and unplanned inspections, which was encouraging to note. That gave us confidence, as a committee, that the services delivered on our behalf were well maintained.

We will have to wait for the Government response. The Minister has sat through this debate and has taken on board what we have said about the recommendations. I look forward to this going forward and to all 21 recommendations being implemented for the benefit of better and safer public services for all in Wales.

iawn o waith cefndir ac nid wyf fi, yn bersonol, am ei weld yn gwneud dim mwy na chynnal coesau piano prif weithredwyr ar hyd a lled y wlad. O'r herwydd, sicrhaf y bydd argymhellion yr adroddiad hwn, fel yr adroddiad cyntaf, yn cael eu gweithredu.

Mae Glyn yn iawn: mae pawb am weld gwasanaethau arolygu yn cynnig gwerth am arian. Yr ydym am symud ymlaen o ran darparu'r gwerth am arian hwnnw a chynnig sicrwydd i ddefnyddwyr gwasanaeth eu bod yn defnyddio gwasanaeth sy'n cael ei arolygu a'i reoleiddio. Nid oedd y rhan fwyaf o bobl, wrth ddarparu eu gwasanaethau, yn ofni arolygiadau gyda rhybudd nac arolygiadau dirybudd, ac yr oedd yn galonogol nodi hynny. Rhoddodd hyn hyder i ni, fel pwyllgor, fod y gwasanaethau a ddarperir ar ein rhan yn cael eu cynnal yn dda.

Bydd yn rhaid inni aros am ymateb y Llywodraeth. Mae'r Gweinidog wedi eistedd drwy'r ddadl hon ac wedi gwrandao ar yr hyn a oedd gennym i'w ddweud am yr argymhellion. Edrychaf ymlaen at weld hyn yn symud ymlaen a gweld pob un o'r 21 o argymhellion yn cael eu gweithredu er mwyn cael gwasanaethau cyhoeddus gwell a mwy diogel i bawb yng Nghymru.

*Cynnig (NDM2449): O blaid 40, Ymatal 0, Yn erbyn 0.
Motion (NDM2449): For 40, Abstain 0, Against 0.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Andrews, Leighton
Barrett, Lorraine
Bates, Mick
Black, Peter
Burnham, Eleanor
Butler, Rosemary
Cairns, Alun
Chapman, Christine
Cuthbert, Jeff
Davidson, Jane
Davies, Glyn
Davies, Jocelyn
Dunwoody-Kneafsey, Tamsin
Essex, Sue
Francis, Lisa
German, Michael
Gibbons, Brian
Graham, William
Gregory, Janice
Griffiths, John
Gwyther, Christine
Hart, Edwina

Hutt, Jane
 Idris Jones, Denise
 James, Irene
 Jones, Alun Ffred
 Jones, Ann
 Jones, Laura Anne
 Lloyd, David
 Lloyd, Val
 Mewies, Sandy
 Randerson, Jenny
 Ryder, Janet
 Sargeant, Carl
 Sinclair, Karen
 Thomas, Catherine
 Thomas, Gwenda
 Thomas, Rhodri Glyn
 Williams, Brynle
 Williams, Kirsty

*Derbyniwyd y cynnig.
 Motion carried.*

The Deputy Presiding Officer: That brings today's proceedings to a close. **Y Dirprwy Lywydd:** Daw hynny â chyfarfod heddiw i ben.

*Daeth y cyfarfod i ben am 5.09 p.m.
 The meeting ended at 5.09 p.m.*

**Aelodau a'u Pleidiau
 Members and their Parties**

Andrews, Leighton (Llafur – Labour)
 Barrett, Lorraine (Llafur – Labour)
 Bates, Mick (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)
 Black, Peter (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)
 Bourne, Nick (Ceidwadwyr Cymru – Welsh Conservatives)
 Burnham, Eleanor (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)
 Butler, Rosemary (Llafur – Labour)
 Cairns, Alun (Ceidwadwyr Cymru – Welsh Conservatives)
 Chapman, Christine (Llafur – Labour)
 Cuthbert, Jeff (Llafur – Labour)
 Davidson, Jane (Llafur – Labour)
 Davies, Andrew (Llafur – Labour)
 Davies, David (Ceidwadwyr Cymru – Welsh Conservatives)
 Davies, Glyn (Ceidwadwyr Cymru – Welsh Conservatives)
 Davies, Janet (Plaid Cymru – The Party of Wales)
 Davies, Jocelyn (Plaid Cymru – The Party of Wales)
 Dunwoody-Kneafsey, Tamsin (Llafur - Labour)
 Elis-Thomas, Dafydd (Plaid Cymru – The Party of Wales)
 Essex, Sue (Llafur – Labour)
 Francis, Lisa (Ceidwadwyr Cymru – Welsh Conservatives)
 German, Michael (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)
 Graham, William (Ceidwadwyr Cymru – Welsh Conservatives)
 Gregory, Janice (Llafur – Labour)
 Griffiths, John (Llafur – Labour)
 Gibbons, Brian (Llafur – Labour)
 Gwyther, Christine (Llafur – Labour)
 Hart, Edwina (Llafur – Labour)
 Hutt, Jane (Llafur – Labour)
 Idris Jones, Denise (Llafur – Labour)
 Isherwood, Mark (Ceidwadwyr Cymru – Welsh Conservatives)
 James, Irene (Llafur – Labour)
 Jones, Alun Ffred (Plaid Cymru – The Party of Wales)
 Jones, Ann (Llafur – Labour)
 Jones, Carwyn (Llafur – Labour)
 Jones, Elin (Plaid Cymru – The Party of Wales)
 Jones, Helen Mary (Plaid Cymru – The Party of Wales)
 Jones, Ieuan Wyn (Plaid Cymru – The Party of Wales)
 Jones, Laura Anne (Ceidwadwyr Cymru – Welsh Conservatives)
 Law, Peter (Annibynnol – Independent)
 Lewis, Huw (Llafur – Labour)
 Lloyd, David (Plaid Cymru – The Party of Wales)
 Lloyd, Val (Llafur – Labour)

Marek, John (Annibynol – Independent)
Melding, David (Ceidwadwyr Cymru – Welsh Conservatives)
Mewies, Sandy (Llafur – Labour)
Morgan, Jonathan (Ceidwadwyr Cymru – Welsh Conservatives)
Morgan, Rhodri (Llafur – Labour)
Neagle, Lynne (Llafur – Labour)
Pugh, Alun (Llafur – Labour)
Randerson, Jenny (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)
Ryder, Janet (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Sargeant, Carl (Llafur – Labour)
Sinclair, Karen (Llafur – Labour)
Thomas, Catherine (Llafur – Labour)
Thomas, Gwenda (Llafur – Labour)
Thomas, Owen John (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Thomas, Rhodri Glyn (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Williams, Brynle (Ceidwadwyr Cymru – Welsh Conservatives)
Williams, Kirsty (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)
Wood, Leanne (Plaid Cymru – The Party of Wales)